GWELLIANT CYMRU | IMPROVEMENT CYMRU

# Fframwaith Cydraddoldebau Iechyd – Canllaw i Ymarferwyr

Fframwaith canlyniadau yn seiliedig ar benderfynyddion anghydraddoldebau iechyd.

GIG CYMRU NHS WALES | Y Weithrediaeth Executive

improvement.cymru

Dyma’r cyfieithiad Cymraeg o’r Fframwaith Cydraddoldebau Iechyd: Y Canllaw cyflawn i Ymarferwyr. Cyfieithiad gan Cyfieithu CYMEN, a chomisiynwyd gan Raglen Anabledd Dysgu, Ansawdd, Diogelwch a Gwelliant Cymru (2024)

Awduron gwreiddiol y Fframwaith Cydraddoldebau Iechyd: D. Atkinson, P. Boulter, C. Hebron a G.Moulster o Rwydwaith Nyrsys Ymgynghorol Dysgu y DU.

# Indicators of the Determinants of Health Inequality

The indicator statements associated with each impact level for the five determinants are presented on the following pages.

| **Penderfynydd 1:** | **Ffactorau cymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd gwaeth fel tlodi, tai gwael, diweithdra a datgysylltu cymdeithasol** | |
|---|---|---|
| **Dangosyddion Anghydraddoldeb Iechyd** | | |
| **A. Llety** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Llety sy'n peri risg uchel neu yn yr ysbyty / carchar heb lety rhyddhau wedi ei nodi, neu'n ddigartref | **Mawr** | **4** |
| Llety amhriodol / llety mewn perygl o fethu | **Sylweddol** | **3** |
| Rhannu llety ag eraill nid o'u dewis eu hunain / yn byw gyda theulu – nid o'u dewis | **Cyfyngedig** | **2** |
| Llety sefydlog sengl neu wedi ei rannu â phobl eraill o'u dewis eu hunain | **Bychan** | **1** |
| Llety teulu sefydlog neu denantiaeth / perchnogaeth eich hun sy'n adlewyrchu dewis personol | **Dim** | **0** |
| **B. Gweithgareddau** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Dim gweithgarwch / ymgysylltu ystyrlon | **Mawr** | **4** |
| Lefelau gweithgarwch / ymgysylltu cyfyngedig iawn | **Sylweddol** | **3** |
| Gweithgareddau / ymgysylltu ystyrlon cyfyngedig | **Cyfyngedig** | **2** |
| Gwaith gwirfoddol neu weithgarwch / ymgysylltu ystyrlon strwythuredig arall | **Bychan** | **1** |
| Mewn cyflogaeth â thâl neu addysg, yn cymryd rhan lawn | **Dim** | **0** |
| **C. Cyllid** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Ychydig iawn o gymorth ariannol neu ddim cymorth o gwbl | **Mawr** | **4** |
| Mynediad cyfyngedig at gymorth ariannol digonol | **Sylweddol** | **3** |
| Cymorth ariannol cyfyngedig | **Cyfyngedig** | **2** |
| Cymorth ariannol llawn / cael gafael ar fudd-daliadau | **Bychan** | **1** |
| Cymorth ariannol digonol | **Dim** | **0** |
| **D. Cyswllt Cymdeithasol** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |

| | | |
|---|---|---|
| Ychydig iawn o gyswllt cymdeithasol neu ddim cyswllt o gwbl | **Mawr** | **4** |
| Cyswllt cymdeithasol cyfyngedig | **Sylweddol** | **3** |
| Cyswllt cymdeithasol yn dibynnu ar gymorth â thâl | **Cyfyngedig** | **2** |
| Rhwydweithiau cymdeithasol di-dâl cyfyngedig | **Bychan** | **1** |
| Amrywiaeth eang o rwydweithiau cymdeithasol sefydledig di-dâl | **Dim** | **0** |
| **E. Ymyleiddio** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Un ffactor ymyleiddio yn cael effaith fawr neu amrywiaeth neu ffactorau ymyleiddio yn cyfyngu ar ffordd o fyw. | **Mawr** | **4** |
| Ffactorau ymyleiddio ychwanegol yn cael effaith sylweddol heb fawr o gymorth na chamau gweithredu'n cael eu cymryd. | **Sylweddol** | **3** |
| Ffactorau ymyleiddio ychwanegol yn cael effaith gyfyngedig | **Cyfyngedig** | **2** |
| Ychydig iawn o ffactorau ychwanegol sy'n ymylol heb unrhyw effaith; mae cymorth priodol ar waith ac yn effeithiol | **Bychan** | **1** |
| Dim ffactorau ymyleiddio ychwanegol | **Dim** | **0** |
| **F. Diogelu** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Pryderon diogelu mawr / cam-drin neu droseddau casineb ar hyn o bryd | **Mawr** | **4** |
| Pryderon diogelu sylweddol / risg o gam-drin neu droseddau casineb | **Sylweddol** | **3** |
| Pryderon diogelu cyfyngedig | **Cyfyngedig** | **2** |
| Pryderon diogelu bychan | **Bychan** | **1** |
| Dim pryderon diogelu | **Dim** | **0** |

| **Penderfynydd 2:** | **Problemau iechyd corfforol a meddyliol sy'n gysylltiedig â chyflyrau genetig a biolegol penodol mewn anableddau dysgu** | |
|---|---|---|
| **Dangosyddion Anghydraddoldeb Iechyd** | | |
| **A. Asesu anghenion iechyd corfforol a meddyliol ac archwiliadau iechyd** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Anghenion iechyd corfforol a / neu feddyliol heb eu hasesu a / neu heb wiriad iechyd blynyddol ar hyn o bryd | **Mawr** | **4** |
| Anghenion iechyd corfforol a / neu feddyliol dan asesiad a / neu archwiliad iechyd wedi ei gynllunio | **Sylweddol** | **3** |
| Aseswyd anghenion iechyd corfforol a / neu feddyliol / cynhaliwyd archwiliad iechyd ond nid oes camau ar waith | **Cyfyngedig** | **2** |
| Aseswyd anghenion iechyd corfforol a / neu feddyliol, cynhaliwyd archwiliad iechyd a chymerwyd camau | **Bychan** | **1** |
| Anghenion corfforol a / neu iechyd meddwl wedi cael eu hasesu a'u diwallu'n llawn | **Na** | **0** |
| **B. Llwybrau Cyflyrau Hirdymor ac adolygiadau wedi eu cynllunio o angen** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Dim dyraniad llwybr nac adolygiad arfaethedig ar gyfer Cyflwr Hirdymor | **Mawr** | **4** |
| Aros am adolygiad a / neu ddyraniad llwybr Cyflwr Hirdymor | **Sylweddol** | **3** |
| Adolygiad o anghenion wedi eu cwblhau ond heb gael ei weithredu - er enghraifft, dyrannu i lwybr Cyflwr Hirdymor | **Cyfyngedig** | **2** |
| Cwblhawyd yr adolygiad o anghenion a gweithredwyd arnynt - er enghraifft, dyrannu i lwybr Cyflwr Hirdymor | **Bychan** | **1** |
| Nid oes angen adolygu anghenion | **Dim** | **0** |
| **C. Cynllunio Gofal / Cynllunio Gweithredu Iechyd** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Dim cynlluniau gofal / cynlluniau gweithredu iechyd ar waith | **Mawr** | **4** |
| Cynlluniau gofal nad ydynt yn benodol i gyflwr / Cynlluniau Gweithredu Iechyd ar waith (ddim yn benodol i gyflwr nac yn cydymffurfio â NICE) | **Sylweddol** | **3** |
| Cynlluniau gofal penodol i gyflwr, sy'n cydymffurfio â gofynion NICE / Cynlluniau Gweithredu Iechyd ar waith ond heb eu hadolygu na'u canolbwyntio ar yr unigolyn | **Cyfyngedig** | **2** |
| Cynlluniau gofal penodol i gyflwr, sy'n cydymffurfio â gofynion NICE / Cynlluniau Gweithredu Iechyd ar waith, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd | **Bychan** | **1** |
| Nid oes angen cynlluniau gofal na Chynlluniau Gweithredu Iechyd | **Dim** | **0** |
| **D. Cynllunio argyfwng / brys a phasbortau ysbyty** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |

| | | |
|---|---|---|
| Dim cynlluniau argyfwng, cynlluniau brys na cynlluniau ailwaelu (lle bo'n briodol) na phasbort ysbyty ar waith | **Mawr** | **4** |
| Cynlluniau argyfwng / brys / ailwaelu a phasbort ysbyty ar waith, nid yn canolbwyntio ar yr unigolyn nac yn cael ei adolygu | **Sylweddol** | **3** |
| Cynlluniau argyfwng / brys / ailwaelu a phasbort ysbyty ar waith, heb eu hadolygu | **Cyfyngedig** | **2** |
| Cynlluniau argyfwng / brys / dychwelyd a phasbort ysbyty ar waith, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cael eu hadolygu | **Bychan** | **1** |
| Dim angen cynlluniau argyfwng / brys, pasbort ysbyty ar waith | **Dim** | **0** |
| **E. Meddyginiaeth** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Meddyginiaeth amhriodol neu feddyginiaeth a roddir yn gudd anghyfreithlon | **Mawr** | **4** |
| Nid yw'r feddyginiaeth yn cael ei hadolygu a / neu nid yw'n cael ei monitro'n rheolaidd | **Sylweddol** | **3** |
| Meddyginiaeth yn cael ei hadolygu ond ddim yn cael ei monitro'n rheolaidd | **Cyfyngedig** | **2** |
| Meddyginiaeth yn cael ei hadolygu a'i monitro | **Bychan** | **1** |
| Dim meddyginiaeth | **Dim** | **0** |
| **F. Darpariaeth gwasanaeth anabledd dysgu arbenigol** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Dim gwasanaeth anabledd dysgu arbenigol ar gael | **Mawr** | **4** |
| Gwasanaeth anableddau dysgu arbenigol cyfyngedig ar gael; ddim yn gallu diwallu'r holl anghenion a nodwyd | **Sylweddol** | **3** |
| Dim ond ychydig o wasanaethau anabledd dysgu arbenigol sydd ar gael | **Cyfyngedig** | **2** |
| Mae gwasanaeth anabledd dysgu arbenigol llawn ar gael | **Bychan** | **1** |
| Mae gwasanaeth anabledd dysgu arbenigol llawn ar gael ond nid oes ei angen ar hyn o bryd | **Dim** | **0** |

| **Penderfynydd 3:** | **Anawsterau cyfathrebu a llai o lythrennedd iechyd** | |
|---|---|---|
| **Dangosyddion Anghydraddoldeb Iechyd** | | |
| **A. Diffyg ymwybyddiaeth corfforol, ymatebion poen a chymorth cyfathrebu** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Diffyg mawr o ymwybyddiaeth gorfforol, ymatebion i boen a chymorth cyfathrebu | **Mawr** | **4** |
| Diffyg sylweddol o ymwybyddiaeth gorfforol, ymatebion i boen a chymorth cyfathrebu | **Sylweddol** | **3** |
| Diffyg cyfyngedig o ymwybyddiaeth gorfforol, ymatebion poen a chymorth cyfathrebu | **Cyfyngedig** | **2** |
| Bychan iawn o ddiffyg ymwybyddiaeth corfforol, ymatebion i boen a chymorth cyfathrebu | **Bychan** | **1** |
| Dim diffyg ymwybyddiaeth gorfforol, ymatebion i boen a chymorth cyfathrebu wedi ei nodi | **Dim** | **0** |
| **B. Cyfleu anghenion iechyd i eraill** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Cyfyngiadau mawr ar gyfathrebu ag eraill ac ar y cymorth a ddarperir mewn perthynas ag anghenion cyfathrebu. | **Mawr** | **4** |
| Cyfyngiadau sylweddol o ran y gallu i gyfathrebu ag eraill ac o ran y gefnogaeth a ddarperir mewn perthynas ag anghenion cyfathrebu. | **Sylweddol** | **3** |
| Cyfyngiadau cyfyngedig o ran y gallu i gyfathrebu ag eraill ac o ran y gefnogaeth a ddarperir mewn perthynas ag anghenion cyfathrebu. | **Cyfyngedig** | **2** |
| Ychydig iawn o gyfyngiadau o ran gallu cyfathrebu ag eraill ac o ran y gefnogaeth a ddarperir mewn perthynas ag anghenion cyfathrebu. | **Bychan** | **1** |
| Ni nodwyd cyfyngiadau ar y gallu i gyfathrebu ag eraill. | **Dim** | **0** |
| **C. Gallu'r rhai sy'n darparu cymorth i adnabod mynegiadau o angen a / neu boen** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Cyfyngiadau mawr ar allu'r rhai sy'n darparu cymorth i adnabod poen / trallod | **Mawr** | **4** |
| Cyfyngiadau sylweddol ar allu'r rhai sy'n darparu cymorth i adnabod poen / trallod | **Sylweddol** | **3** |
| Cyfyngiadau cyfyngedig ar allu'r rhai sy'n darparu cymorth i adnabod poen / trallod | **Cyfyngedig** | **2** |
| Ychydig iawn o gyfyngiadau ar allu'r rhai sy'n darparu cymorth i adnabod poen / trallod | **Bychan** | **1** |
| Dim cyfyngiadau ar allu'r rhai sy'n darparu cymorth i adnabod poen / trallod | **Dim** | **0** |
| **D. Gallu'r rhai sy'n darparu cymorth i adnabod ac ymateb I broblemau iechyd sy'n dod i'r amlwg a / neu hybu llythrennedd iechyd** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Cyfyngiadau mawr yn ymwneud â gallu'r rhai sy'n darparu cymorth i adnabod problemau iechyd sy'n dod i'r amlwg a / neu hybu llythrennedd iechyd | **Mawr** | **4** |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfyngiadau sylweddol yn ymwneud â gallu'r rhai sy'n darparu cymorth i adnabod problemau iechyd sy'n dod i'r amlwg a / neu i hyrwyddo llythrennedd iechyd | **Sylweddol** | **3** |
| Cyfyngiadau cyfyngedig yn ymwneud â gallu'r rhai sy'n darparu cymorth i adnabod problemau iechyd sy'n dod i'r amlwg a / neu hybu llythrennedd iechyd | **Cyfyngedig** | **2** |
| Ychydig iawn o gyfyngiadau sy'n ymwneud â gallu'r rhai sy'n darparu cymorth i adnabod problemau iechyd sy'n dod i'r amlwg a / neu i hyrwyddo llythrennedd iechyd | **Bychan** | **1** |
| Dim cyfyngiadau'n ymwneud â gallu'r rhai sy'n darparu cymorth i adnabod problemau iechyd sy'n dod i'r amlwg a / neu i hyrwyddo llythrennedd iechyd | **Dim** | **0** |
| **E. Deall Gwybodaeth am Iechyd a Gwneud Dewisiadau** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Cyfyngiadau mawr yn ymwneud â chapasiti a chymorth priodol i gael gafael ar wybodaeth iechyd a'i deall a gwneud dewisiadau | **Mawr** | **4** |
| Cyfyngiadau sylweddol yn ymwneud â chapasiti a chymorth priodol i gael gafael ar wybodaeth iechyd a'i deall a gwneud dewisiadau | **Sylweddol** | **3** |
| Cyfyngiadau cyfyngedig yn ymwneud â chapasiti a chymorth priodol i gael gafael ar wybodaeth iechyd a'i deall a gwneud dewisiadau | **Cyfyngedig** | **2** |
| Ychydig iawn o gyfyngiadau yn ymwneud â chapasiti a chymorth priodol i gael gafael ar wybodaeth iechyd a'i deall a gwneud dewisiadau | **Bychan** | **1** |
| Dim cyfyngiadau'n ymwneud â chapasiti a chymorth priodol i gael gafael ar wybodaeth iechyd a'i deall a gwneud dewisiadau | **Dim** | **0** |

| Penderfynydd 4: Ymddygiad iechyd personol a risgiau ffordd o fyw fel deiet, iechyd rhywiol ac ymarfer corff | | |
|---|---|---|
| **Dangosyddion Anghydraddoldeb Iechyd** | | |
| **A. Deiet a hydradu** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Cyfyngiadau mawr ar fwyta ac yfed yn iach | **Mawr** | **4** |
| Cyfyngiadau sylweddol ar fwyta ac yfed yn iach | **Sylweddol** | **3** |
| Cyfyngiadau cyfyngedig ar fwyta ac yfed yn iach | **Cyfyngedig** | **2** |
| Ychydig iawn o gyfyngiadau ar fwyta ac yfed yn iach | **Bychan** | **1** |
| Dim cyfyngiadau ar fwyta ac yfed yn iach | **Dim** | **0** |
| **B. Ymarfer corff** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Cyfyngiadau mawr yn ymwneud ag ymarfer corff | **Mawr** | **4** |
| Cyfyngiadau sylweddol yn ymwneud ag ymarfer corff | **Sylweddol** | **3** |
| Cyfyngiadau cyfyngedig yn ymwneud ag ymarfer corff | **Cyfyngedig** | **2** |
| Ychydig iawn o gyfyngiadau yn ymwneud ag ymarfer corff | **Bychan** | **1** |
| Dim cyfyngiadau'n ymwneud ag ymarfer corff | **Dim** | **0** |
| **C. Pwysau** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Cyfyngiadau mawr ar gadw pwysau priodol | **Mawr** | **4** |
| Cyfyngiadau sylweddol ar gadw pwysau priodol | **Sylweddol** | **3** |
| Cyfyngiadau cyfyngedig ar gadw pwysau priodol | **Cyfyngedig** | **2** |
| Ychydig iawn o gyfyngiadau ar gadw pwysau priodol | **Bychan** | **1** |
| Dim cyfyngiadau ar gadw pwysau priodol | **Dim** | **0** |
| **D. Defnyddio sylweddau** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Dibyniaeth ar gyffuriau, alcohol, neu sylweddau niweidiol eraill | **Mawr** | **4** |
| Defnyddio cyffuriau, alcohol, tybaco neu sylweddau niweidiol eraill mewn ffordd niweidiol | **Sylweddol** | **3** |
| Defnydd peryglus o gyffuriau, alcohol, tybaco neu sylweddau niweidiol eraill | **Cyfyngedig** | **2** |
| Ychydig iawn o gamddefnyddio alcohol neu dybaco. | **Bychan** | **1** |
| Dim patrwm niweidiol o gamddefnyddio sylweddau | **Dim** | **0** |
| **E. Iechyd rhywiol** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Ymddygiadau rhywiol risg uchel iawn. Cam-drin rhywiol neu droseddu rhywiol | **Mawr** | **4** |

| | | |
|---|---|---|
| Ymddygiadau rhywiol anniogel a pheryglus | **Sylweddol** | **3** |
| Ymddygiadau rhywiol amhriodol sy’n gwneud rhywun yn fwy agored i niwed. | **Cyfyngedig** | **2** |
| Ymddygiadau rhywiol diogel o natur gyfyngedig | **Bychan** | **1** |
| Ymddygiadau rhywiol iach | **Dim** | **0** |
| F. **Ymddygiad ac Arferion Peryglus** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Goblygiadau iechyd sylweddol sy’n gysylltiedig â chyflwyno aflonyddwch ymddygiadol difrifol. | **Mawr** | **4** |
| Mae ymddygiad / arferion yn cael effaith sylweddol ar statws iechyd. | **Sylweddol** | **3** |
| Effaith gyfyngedig ar ymddygiad / arferion peryglus ar iechyd. | **Cyfyngedig** | **2** |
| Nid yw ymddygiad yn cael fawr o effaith ar statws iechyd. | **Bychan** | **1** |
| Dim ymddygiadau / arferion peryglus. | **Dim** | **0** |

| Penderfynydd 5: | Diffygion o ran mynediad at ofal iechyd a gwasanaethau eraill a ddarperir, a'u hansawdd | |
|---|---|---|
| **Dangosyddion Anghydraddoldeb Iechyd** | | |
| **A. Rhwystrau sefydliadol** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Cyfyngiadau mawr o ran ansawdd neu fynediad at wasanaethau sy'n gysylltiedig â rhwystrau sefydliadol sy'n atal mynediad yn llwyr. | **Mawr** | **4** |
| Cyfyngiadau sylweddol ar ansawdd neu fynediad at wasanaethau sy'n gysylltiedig â rhwystrau sefydliadol | **Sylweddol** | **3** |
| Cyfyngiadau cyfyngedig o ran ansawdd neu fynediad at wasanaethau sy'n gysylltiedig â rhwystrau sefydliadol | **Cyfyngedig** | **2** |
| Ychydig iawn o gyfyngiadau o ran ansawdd neu fynediad at wasanaethau sy'n gysylltiedig â rhwystrau sefydliadol | **Bychan** | **1** |
| Dim cyfyngiadau ar ansawdd neu fynediad at wasanaethau sy'n gysylltiedig â rhwystrau sefydliadol | **Dim** | **0** |
| **B. Cydsyniad** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Nid yw'r broses cydsyniad neu les pennaf ar waith neu nid yw'n cael ei gweithredu | **Mawr** | **4** |
| Prosesau cydsynio neu lles pennaf ar waith ond yn cael eu hanwybyddu neu eu cymhwyso'n anghywir | **Sylweddol** | **3** |
| Prosesau cydsynio a lles pennaf ar waith ac yn cael eu cymhwyso ond nid yn gyson | **Cyfyngedig** | **2** |
| Prosesau cydsynio a lles pennaf ar waith ac yn cael eu cymhwyso'n effeithiol yn gyffredinol | **Bychan** | **1** |
| Mae'r prosesau cydsynio a lles pennaf yn gadarn ac yn cael eu cymhwyso'n drwyadl | **Dim** | **0** |
| **C. Pontio rhwng gwasanaethau** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Methiant llwyr yn y pontio rhwng gwasanaethau | **Mawr** | **4** |
| Methiant sylweddol yn y pontio rhwng gwasanaethau | **Sylweddol** | **3** |
| Oedi neu darfu ar y pontio rhwng gwasanaethau | **Cyfyngedig** | **2** |
| Mae pontio rhwng gwasanaethau yn llwyddiannus gyda chymorth ychwanegol | **Bychan** | **1** |
| Mae'r pontio rhwng gwasanaethau'n llwyddiannus heb unrhyw gymorth ychwanegol | **Dim** | **0** |
| **D. Mynediad at sgrinio / hybu Iechyd a'i ansawdd** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Cyfyngiadau mawr o ran ansawdd neu fynediad at sgrinio / hybu iechyd | **Mawr** | **4** |
| Cyfyngiadau sylweddol o ran ansawdd neu fynediad at sgrinio / hybu iechyd | **Sylweddol** | **3** |
| Cyfyngiadau cyfyngedig o ran ansawdd neu fynediad at sgrinio / hybu iechyd | **Cyfyngedig** | **2** |

| | | |
|---|---|---|
| Ychydig iawn o gyfyngiadau o ran ansawdd neu fynediad at sgrinio / hybu iechyd | **Bychan** | **1** |
| Dim cyfyngiadau ar ansawdd neu fynediad at sgrinio / hybu iechyd | **Dim** | **0** |
| **E. Mynediad at ofal sylfaenol / eilaidd a'i ansawdd** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Cyfyngiadau mawr o ran ansawdd neu fynediad at ofal sylfaenol a / neu eilaidd | **Mawr** | **4** |
| Cyfyngiadau sylweddol ar ansawdd neu fynediad at ofal sylfaenol a / neu eilaidd | **Sylweddol** | **3** |
| Cyfyngiadau cyfyngedig o ran ansawdd neu fynediad at ofal sylfaenol a / neu eilaidd | **Cyfyngedig** | **2** |
| Ychydig iawn o gyfyngiadau o ran ansawdd neu fynediad at ofal sylfaenol a / neu eilaidd | **Bychan** | **1** |
| Dim cyfyngiadau ar ansawdd neu fynediad at ofal sylfaenol a / neu eilaidd | **Dim** | **0** |
| **F. Mynediad at wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau iechyd a'u hansawdd** | **Sgôr Effaith** | **Lefel** |
| Cyfyngiadau mawr o ran ansawdd gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau iechyd neu fynediad atynt | **Mawr** | **4** |
| Cyfyngiadau sylweddol o ran ansawdd gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau iechyd neu fynediad atynt | **Sylweddol** | **3** |
| Cyfyngiadau cyfyngedig o ran ansawdd gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau iechyd neu fynediad atynt | **Cyfyngedig** | **2** |
| Ychydig iawn o gyfyngiadau o ran ansawdd neu fynediad at wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau iechyd | **Bychan** | **1** |
| Dim cyfyngiadau o ran ansawdd neu fynediad at wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau iechyd | **Dim** | **0** |

# Dangosyddion Amlygiad i Benderfynyddion Anghydraddoldeb Iechyd

Isod ceir dadansoddiad manwl o'r Datganiadau Dangosydd a'r Disgrifyddion ar gyfer pob lefel effaith ar gyfer y Dangosyddion Anghydraddoldeb Iechyd sy'n gysylltiedig â phob un o'r penderfynyddion.

## 1. Dangosyddion Cymdeithasol.

| **A. Llety** | | |
|---|---|---|
| Gall ansawdd safonau byw pobl ag anableddau dysgu amrywio'n fawr. Wrth ystyried llety, mae'n bwysig ystyried yr amgylchedd ffisegol a chymdeithasol. Gall risgiau fodoli oherwydd yr amgylchedd ffisegol (gormod o leithder, trydan anniogel, diffyg addasu o ran problemau symudedd ac ati), neu'n deillio o'r amgylchedd cymdeithasol (gorlenwi, bwlio, ymddygiad ymosodol gan eraill, ac ati). | | |
| **Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd** | | **Disgrifydd** |
| **4A** | Llety sy'n peri risg uchel neu yn yr ysbyty / carchar heb lety rhyddhau wedi ei nodi, neu'n ddigartref. | Mae'r lefel hon yn berthnasol i unigolyn nad oes ganddo lety sefydlog, a allai fod mewn llety tymor byr dros dro heb lety symud ymlaen priodol wedi ei nodi, neu mewn llety sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ei iechyd a'i lesiant. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n byw mewn lleoliadau cyfyngol fel ysbytai neu garchar. Mae'n bosib y bydd pryderon diogelu difrifol mewn perthynas â llety. |
| **3A** | Llety amhriodol / llety mewn perygl o fethu. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fo unigolyn mewn llety nad yw'n diwallu ei anghenion iechyd a chymdeithasol dynodedig; neu lle mae'r llety'n fregus ac yn debygol o fethu (e.e. oherwydd perthynas negyddol â chyfoedion / cymdogion, diffyg cefnogaeth â sgiliau addas, ymddygiad troseddol, neu lle mae'r darparwr llety wedi cyflwyno rhybudd). |
| **2A** | Rhannu llety ag eraill / teulu – nid drwy ddewis. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd llety'n cael ei rannu ag eraill, er nad yw'n cael ei ddewis gan yr unigolyn, neu'n cael ei gytuno drwy broses lles gorau briodol.<br><br>Yn yr un modd, lle mae unigolion yn parhau i fyw gyda'u teulu er gwaethaf y ffaith y byddai'n well ganddynt hwy neu eu teulu fyw'n fwy annibynnol, a symud i fyw'n fwy annibynnol. |

| | | |
|---|---|---|
| **1A** | Llety sefydlog sengl neu wedi ei rannu â phobl eraill o'u dewis eu hunain | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd unigolyn yn byw mewn llety naill ai o'i ddewis neu drwy ddilyn prosesau lles gorau priodol. Fodd bynnag, bydd hyn mewn rhyw fath o ofal cofrestredig neu lle nad oes ganddynt hawliau tenantiaeth na rheolaeth lawn dros eu gofal a / neu eu cefnogaeth. |
| **0A** | Llety teulu sefydlog neu denantiaeth / perchnogaeth eich hun sy'n adlewyrchu dewis personol. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd unigolyn mewn llety sefydlog naill ai o'i ddewis neu'n dilyn proses lles gorau briodol. Mae gan yr unigolyn ei hun neu ei deulu reolaeth dros ei denantiaeth, ei ofal a'i gefnogaeth. |

## B. Cyflogaeth, gweithgareddau ystyrlon ac ymgysylltu

Nid yw cymryd rhan mewn gweithgaredd ystyrlon yn dibynnu ar raddfa o anabledd; bydd yn unigryw i bawb, ac mae'n bosib na fydd yr hyn sy'n ystyrlon i un yn ystyrlon i un arall. Gall gweithgareddau amrywio o wahanol fathau o gyflogaeth, addysg, hyfforddiant, gweithgareddau yn y cartref neu yn y gymuned, a gall y rhain fod yn ffurfiol neu'n anffurfiol. Mae lefel yr ymgysylltu â'r gweithgaredd yn ffordd dda o fesur pa mor ystyrlon ydyw. Gall gweithgaredd ystyrlon i rywun sydd ag anableddau deallusol dwys ac anableddau dysgu lluosog fod yn dylino'r corff, neu wrando ar gerddoriaeth, ac i bobl fwy annibynnol gallai fod yn goginio neu mynychu clwb. I eraill, gallai fod yn waith amser llawn neu fynychu cwrs coleg o'u dewis.

| **Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd** | | **Disgrifydd** |
|---|---|---|
| **4B** | Dim gweithgarwch / ymgysylltu ystyrlon. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan nad oes gan unigolyn weithgareddau nac ymgysylltiad ystyrlon. Byddant yn treulio cyfnodau hir heb unrhyw ysgogiad nac ymgysylltiad; neu mae'n bosib eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau nad ydynt yn ystyrlon iddynt. Mae'n bosib y bydd pryderon diogelu difrifol mewn perthynas â raddfa gweithgarwch ac ymgysylltu. |
| **3B** | Lefelau gweithgarwch / ymgysylltu cyfyngedig iawn. | Mae'r gradd hon yn berthnasol pan fydd mynediad unigolyn at weithgareddau ystyrlon yn gyfyngedig iawn, naill ai am gyfnodau byr iawn neu ddim ond ar gael yn ysbeidiol. Mae'n bosib mai ychydig iawn o weithgareddau priodol sydd wedi cael eu nodi. Dim ond yn amgylchedd cartref yr unigolyn y gellir darparu gweithgareddau ac nid oes llawer o fynediad, os o gwbl, i'r gymuned ehangach. |
| **2B** | Gweithgareddau / ymgysylltu ystyrlon cyfyngedig. | Mae'r lefel hon yn berthnasol os oes gan unigolyn rai gweithgareddau sy'n ystyrlon iddynt, neu os oes amrywiaeth o weithgareddau wedi cael eu nodi ond, serch hynny, mae mynediad atynt yn gyfyngedig neu'n anrhagweladwy. |

| | | |
|---|---|---|
| **1B** | Gwaith gwirfoddol neu weithgarwch / ymgysylltu ystyrlon strwythuredig arall. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd amrywiaeth o weithgareddau ystyrlon ar gael; maent yn fwyaf tebygol o fod wedi eu strwythuro ac yn cael eu defnyddio'n rheolaidd. Mae'n bosibl y bydd cyfuniad o weithgarwch ffurfiol ac anffurfiol; neu ar gyfer pobl sy'n gallu gweithio, mae cyfleoedd ar gael i gymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol. |
| **0B** | Mewn cyflogaeth â thâl neu addysg, yn cymryd rhan lawn. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd unigolyn yn ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau ystyrlon sy'n cynnwys cyflogaeth â thâl neu addysg o'i ddewis a / neu gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ystyrlon mewn gwahanol amgylcheddau gyda gwahanol bobl. |

## C. Cymorth ariannol

Mae'r cysylltiadau rhwng diogelwch ariannol ac iechyd yn glir o'r dystiolaeth. Mae'r rhan fwyaf o bobl ag anableddau dysgu yn derbyn rhyw fath o fudd-dal, ond weithiau mae ymdeimlad bod arian yn annigonol i ddiwallu anghenion unigolyn. Gall tlodi materol effeithio ar allu unigolyn i gymryd deiet maethlon neu i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn ei gymuned. Os na chaiff hawliadau eu hawlio neu os yw arian yn cael ei ddal yn ôl gan barti arall (gweler diogelu) gall hyn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd a llesiant unigolyn.

| **Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd** | | **Disgrifydd** |
|---|---|---|
| **4C** | Ychydig iawn o gymorth ariannol neu ddim cymorth o gwbl. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd unigolyn naill ai'n cael cymorth ariannol cyfyngedig iawn neu ddim o gwbl. Gallai hyn fod oherwydd nad oes modd cael gafael ar fudd-daliadau, eu bod wedi cael eu tynnu'n ôl neu eu bod yn cael eu dal yn ôl. Mae'n bosib y bydd pryderon diogelu difrifol mewn perthynas â chyllid. |
| **3C** | Mynediad cyfyngedig at gymorth ariannol digonol. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fo gan unigolyn fynediad cyfyngedig at gymorth ariannol a / neu bod cyfyngiad ar ddewis a rheolaeth dros ddefnyddio ei gyllid (yn absenoldeb prosesau cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau er lles pennaf). Gallai hyn fod oherwydd nad yw rhai budd-daliadau yn cael eu hawlio, neu bod mynediad at yr hawl lawn yn cael ei gyfyngu. |
| **2C** | Cymorth ariannol cyfyngedig. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle mae rhywfaint o gymorth ariannol ond o natur gyfyngedig a / neu ddewis a rheolaeth gyfyngedig dros ei ddefnyddio (yn absenoldeb prosesau cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau er lles pennaf. Gallai hyn fod oherwydd nad yw meini prawf hawl yn cael eu bodlon i, bod budd-daliadau yn cynnwys gofynion hanfodol yn unig neu fod mynediad at hawliau llawn yn cael ei gyfyngu. |

| | | |
|---|---|---|
| **1C** | Cymorth ariannol llawn / cael gafael ar fudd-daliadau. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle mae budd-daliadau llawn yn cael eu hawlio ac yn darparu cymorth ariannol digonol gyda dewis a rheolaeth i gynnal ansawdd bywyd rhesymol. |
| **0C** | Cymorth ariannol digonol. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd digon o gymorth ariannol i gynnal ansawdd bywyd da gyda chyllid ar gael i gefnogi dewisiadau, rheolaeth a diogelwch. |

## D. Cyswllt cymdeithasol

Gall cyswllt cymdeithasol fod ar sawl ffurf ond mae'n ddangosydd clir o fewn mesurau ansawdd bywyd ac iechyd a llesiant. Bydd rhwydwaith cymdeithasol cryf fel arfer yn cynnwys teulu a ffrindiau, er y gallai hyn gael ei amharu oherwydd lleoliadau anghysbell a phell, diffyg adnoddau ariannol neu argaeledd cymorth. Gall cysylltiadau cymdeithasol pwysig eraill gynnwys cymdogion, pobl â diddordebau hamdden tebyg neu'r rhai sydd â chefndiroedd diwylliannol tebyg.

| **Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd** | | **Disgrifydd** |
|---|---|---|
| **4D** | Ychydig iawn o gyswllt cymdeithasol priodol neu ddim cyswllt o gwbl. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan nad oes fawr ddim cyswllt cymdeithasol priodol, os o gwbl. Gall hyn olygu bod unigolyn yn cael ei dynnu o gyswllt cymdeithasol ac wedi ei ynysu'n gymdeithasol, heb fawr ddim cyswllt, os o gwbl, o unrhyw fath ar wahân i gymorth â thâl ac eraill sydd wedi eu lleoli yn yr un gwasanaeth. Mae'n bosib y bydd pryderon diogelu difrifol mewn perthynas ag ynysu cymdeithasol neu ddylanwad cysylltiadau cymdeithasol amhriodol. |
| **3D** | Lefelau cyfyngedig o gyswllt cymdeithasol. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd cyswllt cymdeithasol priodol ar gael ond ei fod yn fregus neu mewn perygl o gael ei golli. Gall hyn fod am amrywiaeth eang o resymau gan gynnwys ymddygiad, sefyllfa fyw, risg, lefelau staffio ac ati. |
| **2D** | Cyswllt cymdeithasol yn dibynnu ar gymorth â thâl. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd rhywfaint o gyswllt cymdeithasol priodol yn cael ei gynnal ond ei fod yn dibynnu ar gymorth â thâl. Mae'n bosib y bydd dewis a rheolaeth gyfyngedig dros gyswllt cymdeithasol. |
| **1D** | Rhwydweithiau cymdeithasol di-dâl cyfyngedig. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd unigolyn yn gallu cynnal cyswllt cymdeithasol priodol yn annibynnol neu pan fydd cyswllt cymdeithasol yn cael ei reoli gan yr unigolyn drwy ddefnyddio cyllideb bersonol neu – fodd bynnag, mae'n bosib y bydd cyswllt cymdeithasol yn gyfyngedig. |

| | | |
|---|---|---|
| **0D** | Amrywiaeth eang o rwydweithiau cymdeithasol sefydledig di-dâl. | Mae’r lefel hon yn berthnasol pan fo unigolyn mewn rheolaeth lwyr dros fynediad at amrywiaeth eang o gysylltiadau cymdeithasol priodol gyda rhwydweithiau cymdeithasol sefydledig. |

**E. Ffactorau ymyleiddio ychwanegol (fel ethnigrwydd)**

Gall y dangosydd hwn ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion a all gynyddu ymyleiddio unigolyn. Gellir cysylltu hyn ag ethnigrwydd, rhyw, ymddygiadau, rhywioldeb, ymddangosiad, nodweddion corfforol, gwahaniaethau lleferydd ac ati.

| **Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd** | | **Disgrifydd** |
|---|---|---|
| **4E** | Un ffactor ymyleiddio yn cael effaith fawr neu amrywiaeth neu ffactorau ymyleiddio yn cyfyngu ar ffordd o fyw. | Mae’r lefel hon yn berthnasol pan fydd effaith fawr ar ansawdd bywyd unigolyn oherwydd ffactorau ymylol yn ogystal â’u hanableddau dysgu. Gall hyn olygu eu bod yn fwy agored i niwed neu fod eu bywyd wedi ei gyfyngu ymhellach i raddau helaeth. Mae’n bosib y bydd pryderon diogelu difrifol o ganlyniad i ffactorau ychwanegol sy’n ymyleiddio. |
| **3E** | Ffactorau ymyleiddio ychwanegol yn cael effaith sylweddol heb fawr o gymorth na chamau gweithredu’n cael eu cymryd. | Mae’r lefel hon yn berthnasol pan brofir effaith negyddol sylweddol ar fywyd unigolyn oherwydd ffactorau ymylol ychwanegol. Gall hyn olygu nad ydynt yn gallu gwneud rhai gweithgareddau sy’n cael eu ffafrio neu fyw bywyd mor llawn ag y byddent fel arall yn gallu ei wneud neu’n dewis ei wneud. Prin yw’r gefnogaeth na’r camau sy’n cael eu cymryd. |
| **2E** | Ffactorau ymyleiddio ychwanegol yn cael effaith gyfyngedig. | Mae’r lefel hon yn berthnasol lle mae ffactorau ymylol ychwanegol yn bresennol a’r rhain yn cael effaith gyfyngedig ar yr unigolyn. Gall hyn olygu eu bod yn teimlo’n fwy agored i niwed neu’n teimlo’n llai abl i wneud y pethau y byddent yn gallu neu’n dewis eu gwneud fel arall. Mae rhywfaint o gymorth ar gael ond mae’n bosib nad yw’n briodol nac yn effeithiol. |
| **1E** | Ychydig iawn o ffactorau ychwanegol sy’n ymylol heb unrhyw effaith; mae cymorth priodol ar waith ac yn effeithiol. | Mae’r lefel hon yn berthnasol lle mae ffactorau ymylol ychwanegol sy’n cael eu rheoli a’u cefnogi mewn ffordd sy’n cael fawr ddim effaith neu ddim effaith o gwbl ar fywyd yr unigolyn. |
| **0E** | Dim ffactorau ymyleiddio ychwanegol. | Nid oes ffactorau ymyleiddio y tu hwnt i’r anableddau dysgu. |

| **F. Diogelu** | | |
|---|---|---|
| Mae cynnwys materion diogelu yn y fframwaith yn golygu bod modd cofnodi unrhyw fater a allai fod yn effeithio ar ddiogelwch yr unigolyn. Mae'n bosibl bod ffactorau o'r fath wedi cael eu cynnwys mewn dangosydd arall (ariannol, er enghraifft) ond mae'r dangosydd hwn yn cofnodi ffurfioldeb meysydd risg o'r fath gan gynnwys troseddau casineb. Mae hefyd yn cynnwys materion sy'n ymwneud â diogelwch eraill gan gynnwys plant. | | |
| **Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd** | | **Disgrifydd** |
| **4F** | Pryderon diogelu mawr / cam-drin neu droseddau casineb ar hyn o bryd | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd materion diogelu cyfredol neu fawr y mae angen rhoi sylw iddynt, neu sy'n cael sylw. Gall hyn fod oherwydd pryderon bod cam-drin gweithredol neu drosedd casineb yn digwydd, neu fod risg ddifrifol ar unwaith i'r unigolyn neu i eraill. |
| **3F** | Pryderon diogelu sylweddol / risg o gam-drin neu droseddau casineb | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd risgiau mawr a allai olygu bod angen ymateb diogelu. Mae'n bosib y bydd arwyddion o gam-drin posib, troseddau casineb neu risg i eraill y mae angen eu monitro; mae'n bosib bod diffyg systemau cymorth sy'n cofnodi, yn monitro ac yn dryloyw. |
| **2F** | Pryderon diogelu cyfyngedig. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd pryderon o natur diogelu a allai effeithio ar yr unigolyn neu ar bobl eraill. Gallai hyn fod pan fydd yr unigolyn mewn llety a rennir lle mae cam-drin neu drosedd casineb tuag at unigolyn arall wedi cael ei nodi. Mae'n bosib y bydd problemau diwylliannol yn yr amgylchedd cymorth y mae angen rhoi sylw iddynt. |
| **1F** | Ychydig iawn o risgiau diogelu. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle gallai unigolyn fod yn agored i niwed ond mae'r risgiau presennol o ran diogelu neu droseddau casineb yn fach iawn a lle mae monitro, tryloywder a chofnodi da ar waith. |
| **0F** | Dim pryderon diogelu. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan nad oes pryderon diogelu na throseddau casineb ar hyn o bryd ac mae unrhyw risg yn fach iawn ac yn cael ei rheoli'n dda. |

## 2. Dangosyddion Genetig a Biolegol.

| A. Asesu anghenion iechyd corfforol a meddyliol ac archwiliadau iechyd | | |
|---|---|---|
| Gall asesu anghenion iechyd corfforol a / neu feddyliol fod yn gymhleth<br>Mae llawer o gyflyrau iechyd penodol yn llawer mwy cyffredin yn y boblogaeth anableddau dysgu, epilepsi, cyflyrau anadlol a gorbryder, er enghraifft<br>Gall fod anawsterau wrth ganfod a chydnabod cyflyrau a symptomau (annodweddiadol yn aml) cyflyrau iechyd penodol. Mae angen ystyried hefyd er mwyn deall y rhyngweithio rhwng cyflyrau anabledd dysgu penodol a'r amgylchedd. Gall archwiliadau Iechyd Blynyddol helpu i leihau rhai o'r anawsterau hyn. | | |
| **Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd** | | **Disgrifydd** |
| **4A** | Anghenion iechyd corfforol a / neu feddyliol heb eu hasesu a / neu nid oes gwiriad iechyd blynyddol ar hyn o bryd | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle na fu asesiad priodol nac effeithiol o anghenion a / neu ddim gwiriad iechyd blynyddol. Mae'n debygol bod salwch heb ei ddiagnosis oherwydd nad yw arwyddion a symptomau wedi cael eu cydnabod. Gellir ystyried problemau iechyd fel rhan o'r anabledd dysgu (cysgodi disagnostig) . Bydd diffyg gwyliadwriaeth iechyd ar gyfer pobl sy'n cael trafferth cyfathrebu. Mae'n bosib y bydd pryderon diogelu difrifol mewn perthynas ag asesu anghenion iechyd. |
| **3A** | Mae anghenion iechyd corfforol a / neu feddyliol yn parhau i gael eu hasesu a / neu mae archwiliad iechyd blynyddol yn cael ei gynllunio ond nid yw wedi cael ei gwblhau. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle bu oedi wrth gwblhau prosesau asesu. Mae'n bosib fod dulliau anghyson wedi cael eu defnyddio i roi diagnosis o salwch oherwydd nad yw arwyddion a symptomau bob amser wedi cael eu cydnabod na'u deall. Mae asesu poen yn debygol o fod yn gyfyngedig iawn. |
| **2A** | Aseswyd anghenion iechyd corfforol a / neu feddyliol / cynhaliwyd archwiliad iechyd ond nid oes camau ar waith. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fo asesiad wedi ei gynnal ond bod oedi o ran diwallu'r anghenion a nodwyd. Mae'n bosib nad yw'r anghenion yn cael eu blaenor iaethu neu fod cymhlethdod diwallu'r angen yn atal camau priodol rhag cael eu cymryd neu nad oes atgyfeiriad wedi ei wneud ar gyfer ymyriadau eraill. |
| **1A** | Aseswyd anghenion iechyd corfforol a / neu feddyliol, cynhaliwyd archwiliad iechyd a chymerwyd camau. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle mae anghenion wedi cael eu hasesu'n briodol a bod camau priodol yn cael eu cymryd. Nid yw'r anghenion a nodwyd wedi eu datrys eto ond mae cynnydd yn cael ei wneud. |
| **0A** | Anghenion corfforol a / neu iechyd meddwl wedi cael eu hasesu a'u diwallu'n llawn. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle mae anghenion wedi cael eu hasesu'n llawn a lle mae camau priodol wedi eu cymryd sy'n diwallu'r anghenion hynny'n llawn. |

**B. Llwybrau Cyflyrau Hirdymor ac adolygiadau wedi eu cynllunio o angen**

Mae gan lawer o bobl ag anableddau dysgu gyflyrau hirdymor, ond nid yw'r llwybrau sefydledig ar gyfer trin cyflyrau o'r fath (dementia, epilepsi, diabetes ac ati) bob amser yn cael eu darparu. Mae anghenion pobl yn newid dros amser ac felly mae angen eu hadolygu'n rheolaidd. Gall rhai pobl ag anableddau dysgu barhau i dderbyn triniaethau nad ydynt yn briodol neu'n ofynnol mwyach.

| **Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd** | | **Disgrifydd** |
|---|---|---|
| **4B** | Dim dyraniad llwybr nac adolygiad arfaethedig ar gyfer Cyflwr Hirdymor. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd materion iechyd nad ydynt wedi cael sylw, neu nad ydynt yn cael eu datrys. Mae'n bosib bod diffyg sensitifrwydd neu ymwybyddiaeth o arwyddion a symptomau iechyd. Mae cydnabod newidiadau mewn cyflwr iechyd yn debygol o fod yn wael iawn. Dynodwyd nad yw'r dyraniad llwybr gofal tymor hir wedi ei wneud. Mae'n bosib y bydd pryderon diogelu difrifol mewn perthynas â dyrannu llwybr gofal neu adolygu anghenion. |
| **3B** | Aros am adolygiad a / neu ddyraniad llwybr Cyflwr Hirdymor. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan gydnabyddir yr angen am adolygiad ond nad yw wedi digwydd. Bydd materion iechyd hysbys y mae angen mynd i'r afael â nhw.<br><br>Mae adnabod arwyddion iechyd, symptomau a newidiadau mewn cyflwr iechyd yn debygol o fod yn anghyson. |
| **2B** | Adolygiad o anghenion wedi eu cwblhau ond heb gael ei weithredu - er enghraifft, dyrannu i lwybr Cyflwr Hirdymor. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd adolygiad o anghenion wedi cael ei gynnal ond nad yw'r camau gofynnol wedi cael eu rhoi ar waith eto. Mae'n bosib nad yw'r camau gweithredu'n cael eu blaenoriaethu neu fod cymhlethdod gwneud y newidiadau gofynnol yn atal camau priodol rhag cael eu cymryd. |
| **1B** | Cwblhawyd yr adolygiad o anghenion a gweithredwyd arnynt - er enghraifft, dyrannu i lwybr Cyflwr Hirdymor. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fo adolygiad o anghenion wedi ei gynnal a bod y camau gweithredu sy'n deillio ohono'n cael eu rhoi ar waith. Gallai hyn olygu bod camau gweithredu llwybr cyflwr hirdymor yn cael eu cyflawni gydag addasiadau rhesymol. |
| **0B** | Nid oes angen adolygu anghenion. | Mae'r lefel hon yn berthnasol os nad oes anghenion wedi eu nodi neu eu canfod y mae angen eu hadolygu. Nid oes angen ymyriad. |

## C. Cynllunio Gofal / cynllunio gweithredu iechyd

Cynllunio gofal yw'r modd y caiff anghenion gofal eu nodi. Mae'r cynllun gofal yn ffocws pwysig ar gyfer cyfathrebu da; dylai lywio gwaith pobl eraill a bod yn sail ar gyfer parhad gofal. Mae Cynlluniau Gweithredu Iechyd yn nodi beth sydd angen digwydd a phwy sydd angen gwneud hynny. Gall fod anawsterau os yw'r cynlluniau hyn yn aneglur, yn annigonol, yn gamarweiniol, yn anghyson neu os na weithredir arnynt yn briodol.

| Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd | | Disgrifydd |
|---|---|---|
| **4C** | Dim cynlluniau gofal / cynlluniau gweithredu iechyd ar waith. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fo gan yr unigolyn anghenion sydd angen camau gweithredu penodol ond nad oes cynlluniau gofal ar waith. Mae hyn yn golygu nad yw'r unigolyn yn cael digon o gymorth gyda'i anghenion iechyd; mae'n bosib bod pryderon diogelu difrifol mewn perthynas â chynllunio gofal. |
| **3C** | Cynlluniau gofal nad ydynt yn benodol i gyflwr / Cynlluniau Gweithredu Iechyd ar waith (ddim yn benodol i gyflwr nac yn cydymffurfio â NICE). | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fo gan unigolyn gynlluniau gofal ar waith ond nad ydynt yn mynd i'r afael â'r amodau penodol y gwyddys eu bod yn bodoli. Er enghraifft, rhywun â syndrom Down nad oes ganddo brofion gweithrediad thyroid wedi eu nodi yn ei gynlluniau gofal, neu rywun ag epilepsi nad oes ganddo gynllun gofal ar gyfer rheoli ffitiau sy'n unol â chanllawiau NICE. |
| **2C** | Cynlluniau gofal penodol i gyflwr, sy'n cydymffurfio â gofynion NICE / Cynlluniau Gweithredu Iechyd ar waith ond heb eu hadolygu na'u canolbwyntio ar yr unigolyn. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle mae cynlluniau gofal ar waith i fynd i'r afael ag amodau hysbys penodol; fodd bynnag, mae'r cynlluniau'n gyffredinol ac nid ydynt yn unigol nac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'n debygol nad yw'r cynlluniau gofal wedi cael eu hadolygu'n effeithiol. |
| **1C** | Cynlluniau gofal penodol i gyflwr, sy'n cydymffurfio â gofynion NICE / Cynlluniau Gweithredu Iechyd ar waith, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fo anghenion asesu hysbys y mae cynlluniau gofal penodol yn bodoli ar eu cyfer. Bydd y cynlluniau gofal yn seiliedig ar anghenion penodol yr unigolyn mewn ffordd bersonol. Bydd y cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn effeithiol. |
| **0C** | Nid oes angen cynlluniau gofal na Chynlluniau Gweithredu Iechyd. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle nad oes gofyniad am gynlluniau gofal gan nad yw asesiad llawn a thrylwyr wedi nodi unrhyw angen nas diwallwyd. |

## D. Cynllunio argyfwng / brys a phasbortau ysbyty

Gall cynlluniau argyfwng atal llawer o'r anawsterau sy'n gysylltiedig ag argyfwng neu gael eich derbyn i'r ysbyty ar frys. Maent yn effeithiol dim ond os ydynt yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd a'u bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar ei anghenion penodol, ac yn ystyried amgylchiadau lleol. Mae pasbortau ysbyty yn helpu i sicrhau bod anghenion unigolyn yn cael eu diwallu os a phan fydd angen iddo fynd i'r ysbyty neu os oes angen triniaeth neu asesiad yn yr ysbyty arno.

| Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd | | Disgrifydd |
|---|---|---|
| **4D** | Dim cynlluniau argyfwng, cynlluniau brys na cynlluniau ailwaelu (lle bo'n briodol) na phasbort ysbyty ar waith. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan nad oes cynlluniau i ymateb i argyfwng o ran anghenion iechyd. Nid yw pasbort ysbyty wedi ei gwblhau. Mae'n bosib y bydd pryderon diogelu difrifol mewn perthynas â chynlluniau argyfwng / brys. |
| **3D** | Cynlluniau argyfwng / brys / ailwaelu a phasbort ysbyty ar waith, nid yn canolbwyntio ar yr unigolyn nac yn cael ei adolygu. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fo cynlluniau argyfwng a / neu gynlluniau brys, a phasbort ysbyty wedi eu cwblhau ond eu bod yn annigonol neu wedi dyddio; gall hyn fod oherwydd nad ydynt yn canolbwyntio ar yr unigolyn, nad ydynt yn gadarn nac yn addas i'r diben. |
| **2D** | Cynlluniau argyfwng / brys / ailwaelu a phasbort ysbyty ar waith, heb eu hadolygu. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle mae cynlluniau argyfwng a / neu gynlluniau brys a phasbort ysbyty yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ond heb gael eu hadolygu. |
| **1D** | Cynlluniau argyfwng / brys / dychwelyd a phasbort ysbyty ar waith, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cael eu hadolygu. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd cynlluniau argyfwng, cynlluniau brys a, lle bo hynny'n briodol, cynlluniau ailwaelu a phasbort ysbyty ar waith. Mae'r cynlluniau hyn yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn unigol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. |
| **0D** | Dim angen cynlluniau argyfwng / brys, pasbort ysbyty ar waith. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan nad oes angen cynlluniau argyfwng neu gynlluniau brys ar unigolyn; mae'n debygol y bydd ganddo rwydweithiau da o gefnogaeth a chyfathrebu da. Mae pasbort ysbyty yn gyflawn, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn gyfredol. |

## E. Meddyginiaeth

Oherwydd mwy o gyd-forbidrwydd, mae pobl ag anableddau dysgu yn aml yn cymryd nifer o feddyginiaethau sy'n arwain at ryngweithio cymhleth. Mewn rhai achosion maent yn fwy agored i effeithiau niweidiol ac annodweddiadol meddyginiaethau ac eto mae'n bosib y byddant yn ei chael hi'n anodd rhoi gwybod am sgil-effeithiau sy'n beryglus i iechyd a llesiant. Gall pobl sy'n ymddwyn yn heriol gael eu rhagnodi'n ddidrwydded ar gyfer cyffuriau gwrthseicotig. O bryd i'w gilydd, mae'n bosib y bydd angen rhoi meddyginiaeth am ddim i bobl; dylai hyn bob amser fod yn destun asesiad galluedd priodol a phrosesau budd pennaf.

| **Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd** | | **Disgrifydd** |
|---|---|---|
| **4E** | Meddyginiaeth amhriodol neu feddyginiaeth a roddir yn anghyfreithlon. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fo meddyginiaeth yn cael ei defnyddio nad yw'n cyd-fynd ag anghenion penodol yr unigolyn e.e. nad yw wedi ei rhagnodi ar gyfer defnydd sydd wedi ei ddiagnosio a/neu ei drwyddedu, neu'n fwy na'r cyfyngiadau dos a argymhellir. Mae'n bosib fod meddyginiaeth a argymhellir ar gyfer defnydd tymor byr wedi cael ei chymryd am gyfnodau hir heb adolygiad rheolaidd (e.e. cyffur lleihau gorbryder bensodiasepin, gwrthfiotigau proffylactig); neu feddyginiaeth sydd â sgil effeithiau peryglus a ffenestr therapiwtig gul; neu lle mae meddyginiaeth yn cael ei rhoi'n gudd heb ganiatâd (lle mae capasiti) neu benderfyniad budd pennaf. Nid yw'r rhai sy'n darparu cymorth yn rheoli meddyginiaeth yn ddiogel neu mae problemau mawr o ran cydymffurfio. Mae'n bosib y bydd pryderon diogelu difrifol mewn perthynas â meddyginiaeth. |
| **3E** | Nid yw'r feddyginiaeth yn cael ei hadolygu a / neu nid yw'n cael ei monitro'n rheolaidd. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle mae meddyginiaeth aml-fferylliaeth yn parhau i gael ei rhoi heb adolygiad arbenigol; neu lle nad yw effeithiolrwydd, neu sgil effeithiau yn cael eu monitro'n ddigonol. Dylid cynnal adolygiad llawn o'r holl feddyginiaeth bob blwyddyn o leiaf. Nid yw'r rhai sy'n darparu cymorth yn rheoli meddyginiaeth yn briodol neu mae problemau sylweddol o ran cydymffurfio. |
| **2E** | Meddyginiaeth yn cael ei hadolygu ond ddim yn cael ei monitro'n rheolaidd. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd meddyginiaeth yn cael ei hadolygu (yn flynyddol, o bosib) ond mae'r gwaith o fonitro effeithiolrwydd neu sgil-effeithiau yn wael yn barhaus. Nid yw'r rhai sy'n darparu cymorth yn monitro nac yn cofnodi meddyginiaeth yn effeithiol, neu mae problemau cyfyngedig o ran cydymffurfio. |
| **1E** | Meddyginiaeth yn cael ei hadolygu a'i monitro. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fo meddyginiaeth yn cael ei monitro a'i chofnodi'n ofalus gydag adolygiad rheolaidd a phriodol. Mae'r rhai sy'n darparu cymorth yn monitro ac yn cofnodi meddyginiaeth yn effeithiol ac ychydig iawn o broblemau sy'n codi o ran cydymffurfio. |
| **0E** | Dim meddyginiaeth. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan nad oes angen meddyginiaeth ar hyn o bryd. |

| **F. Darpariaeth gwasanaeth anabledd dysgu arbenigol** | | |
|---|---|---|
| Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â mynediad ac ansawdd gwasanaethau anabledd dysgu arbenigol a'u gallu i ddarparu lefel o gymorth sy'n diwallu anghenion iechyd arbenigol unigolyn na fyddai fel arall yn cael eu diwallu mewn lleoliad prif ffrwd yn unig. | | |
| **Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd** | | **Disgrifydd** |
| **4F** | Dim darpariaeth gwasanaeth anabledd dysgu arbenigol ar gael. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan nad oes gwasanaeth anabledd dysgu arbenigol ar gael i unigolyn. Gall hyn fod oherwydd diffyg darpariaeth gwasanaeth arbenigol yn lleol neu fod mynediad yn cael ei wrthod neu ei atal. Mae'n bosib y bydd pryderon diogelu difrifol. Mewn perthynas â diffyg darpariaeth gwasanaeth arbenigol briodol. |
| **3F** | Gwasanaethau anableddau dysgu arbenigol cyfyngedig ar gael; ddim yn gallu diwallu'r holl anghenion a nodwyd. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd rhai gwasanaethau anabledd dysgu arbenigol ar gael ond y bydd mynediad o bosib yn cael ei gyfyngu, ei ohirio neu ddim ar gael yn lleol. Nid oes cymorth i gael gafael ar y gwasanaeth sydd ar gael. Mae'n bosib y bydd meysydd angen a nodwyd nad oes modd eu diwallu. |
| **2F** | Dim ond ychydig o wasanaethau anabledd dysgu arbenigol sydd ar gael. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fo gwasanaeth anabledd dysgu arbenigol cyfyngedig ar gael yn lleol ac yn cael ei ddarparu ond bod cyfyngiadau ar ansawdd neu gwmpas y gwasanaeth sydd ar gael. Prin yw'r cymorth sydd ar gael i gael mynediad at y gwasanaeth. |
| **1F** | Mae gwasanaeth anabledd dysgu arbenigol llawn ar gael. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd gwasanaeth arbenigol o ansawdd uchel ar gael ac yn cael ei ddefnyddio gan yr unigolyn. Mae digon o gefnogaeth ar gael i gael mynediad at y gwasanaeth. |
| **0F** | Mae gwasanaeth anabledd dysgu arbenigol llawn ar gael ond nid oes ei angen ar hyn o bryd. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd gwasanaeth llawn, o ansawdd uchel a phriodol ar gael ond nad oes ei angen ar hyn o bryd. |

## 3. Anawsterau Cyfathrebu a Dangosyddion Llai o Lythrennedd Iechyd.

| A. Diffyg ymwybyddiaeth corfforol, llai o ymateb i boen a chymorth cyfathrebu | | |
|---|---|---|
| Mae gallu unigolion i adnabod teimladau corfforol normal ac annormal, gan gynnwys poen, yn gallu amrywio. Gall rhai pobl fod mewn perygl difrifol oherwydd eu hanallu i fynegi eu hunain yn effeithiol ac anallu eraill i ddeall / neu ymateb yn briodol. Mae rhai pobl yn dangos ymddygiadau sy'n cael eu disgrifio fel rhai heriol mewn ymateb i boen. | | |
| **Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd** | | **Disgrifydd** |
| **4A** | Cyfyngiadau mawr o ran ymwybyddiaeth gorfforol, ymatebion i boen a chymorth cyfathrebu. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan nad yw unigolyn yn gallu adnabod teimladau corfforol annormal ac mai dim ond ychydig iawn o ymateb (neu ddim ymateb amlwg) y mae'n gallu ei ddangos i boen; nid yw'n cael unrhyw gymorth priodol i adnabod anghenion.<br><br>Mae'n bosib bod pryderon diogelu difrifol mewn perthynas ag ymwybyddiaeth gorfforol, ymatebion i boen a chymorth cyfathrebu. |
| **3A** | Cyfyngiadau sylweddol o ran ymwybyddiaeth gorfforol, ymatebion i boen a chymorth cyfathrebu. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fo unigolyn wedi ei gyfyngu'n sylweddol o ran ei allu i adnabod teimladau corfforol annormal gan gynnwys poen a thrallod, ac sy'n cael cymorth priodol annigonol i adnabod anghenion.<br><br>Ni nodwyd arwyddion dieiriau o boen a thrallod. |
| **2A** | Cyfyngiadau cyfyngedig o ran ymwybyddiaeth gorfforol, ymatebion poen a chymorth cyfathrebu. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd gan unigolyn rywfaint o gyfyngiadau o ran adnabod teimladau corfforol annormal gan gynnwys poen, ac nad yw'n cael llawer o gymorth gan eraill i adnabod anghenion. Bydd dangosyddion poen / trallod di-eiriau wedi cael eu hasesu a'u disgrifio ond nid ydynt bob amser yn cael eu gweithredu. |
| **1A** | Ychydig iawn o gyfyngiadau o ran ymwybyddiaeth corfforol, ymatebion i boen a chymorth cyfathrebu. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd gan unigolyn rywfaint o gyfyngiadau o ran ymwybyddiaeth gorfforol neu pan fydd yn dangos ymatebion normal i boen i raddau helaeth. Mae'n cael cymorth priodol i ganfod anghenion. |
| **0A** | Dim diffyg ymwybyddiaeth gorfforol, ymatebion i boen a chymorth cyfathrebu wedi ei nodi. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd gan unigolyn ymwybyddiaeth dda o'r corff a gall ddangos ymatebion addasol arferol i boen / trallod. |

## B. Cyfleu anghenion iechyd i eraill

Mae gan bobl ag anableddau dysgu allu amrywiol i gyfleu eu problemau iechyd i eraill. Mae'n bosib na fydd y rhai sy'n cynnig cymorth yn sylwi ar arwyddocâd dangosyddion ymddygiadol poen/anghysur/gofid.

| Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd | | Disgrifydd |
|---|---|---|
| **4B** | Cyfyngiadau mawr iawn o ran gallu cyfathrebu ag eraill ac o ran y gefnogaeth a ddarperir mewn perthynas ag anghenion cyfathrebu. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd anawsterau mawr o ganlyniad i anghenion cymhleth iawn mewn perthynas â gallu unigolyn i gyfathrebu, fel nad yw'n gallu cyfathrebu'n llwyr ag eraill. Nid ydw'n cael cefnogaeth nac adnoddau priodol i helpu i gyfleu anghenion iechyd. Mae'n bosib y bydd pryderon diogelu difrifol mewn perthynas â chyfleu anghenion iechyd. |
| **3B** | Cyfyngiadau sylweddol o ran y gallu i gyfathrebu ag eraill ac o ran y gefnogaeth a ddarperir mewn perthynas â chyfathrebu. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd anawsterau sylweddol o ganlyniad i anghenion cymhleth a chyfathrebu cyfyngedig iawn ag eraill. Mae'n cael cymorth annigonol neu amhriodol i helpu i gyfleu anghenion iechyd. |
| **2B** | Cyfyngiadau cyfyngedig o ran y gallu i gyfathrebu ag eraill ac o ran y gefnogaeth a ddarperir mewn perthynas â chyfathrebu. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle mae rhai anawsterau o ganlyniad i anghenion cymhleth a chyfathrebu cyfyngedig ag eraill. Mae'n cael rhywfaint o gymorth priodol i helpu i gyfleu anghenion iechyd. |
| **1B** | Ychydig iawn o gyfyngiadau o ran gallu cyfathrebu ag eraill ac o ran y gefnogaeth a ddarperir mewn perthynas â chyfathrebu. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan nad oes llawer o anawsterau o ganlyniad i allu unigolyn i gyfathrebu ag eraill. Mae'n cael cymorth ac adnoddau priodol i helpu i gyfleu anghenion iechyd. |
| **0B** | Ni nodwyd cyfyngiadau ar y gallu i gyfathrebu ag eraill. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan nad oes anawsterau wedi eu nodi sy'n ymwneud â gallu'r unigolyn i gyfathrebu ag eraill. Maent yn gallu disgrifio'n huawdl eu harwyddion, eu symptomau, eu pryderon a'u hanghenion iechyd i eraill. |

| C. Gallu gofalwyr i adnabod mynegiannau o anghenion / poen | | |
|---|---|---|
| Mae'n bwysig bod pobl sy'n darparu gofal neu gymorth yn gallu cael mynediant at hyfforddiant neu gymorth ynghylch cyfathrebu a chanfod a rheoli poen, salwch a thrallod. Dylai cynlluniau gweithredu iechyd a phasbortau ysbyty a chyfathrebu gynnwys gwybodaeth am sut mae'r unigolyn yn cyfathrebu poen/trallod a sut mae hyn yn cael ei reoli. | | |
| **Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd** | | **Disgrifydd** |
| **4C** | Cyfyngiadau mawr ar allu'r rhai sy'n darparu cymorth i adnabod poen / trallod. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle mae anawsterau mawr yn gysylltiedig â methiant i adnabod poen, trallod neu salwch sy'n arwain at ddirywiad tebygol mewn iechyd a llesiant corfforol a / neu feddyliol. Mae'n bosib y bydd pryderon diogelu difrifol mewn perthynas â chydnabod anghenion / poen. |
| **3C** | Cyfyngiadau sylweddol ar allu'r rhai sy'n darparu cymorth i adnabod poen / trallod. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle mae anawsterau sylweddol yn gysylltiedig â methiant i gydnabod poen, trallod neu salwch sy'n arwain at ddirywiad posibl mewn iechyd a llesiant corfforol a / neu feddyliol. Ychydig iawn o hyfforddiant mae'r rhai sy'n darparu cymorth wedi ei gael ynghylch anghenion iechyd pobl ag anabledd dysgu. |
| **2C** | Cyfyngiadau cyfyngedig ar allu'r rhai sy'n darparu cymorth i adnabod poen / trallod. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan nad oes llawer o anawsterau'n gysylltiedig â chydnabod a thrin poen, trallod neu salwch yn anghyson. Mae'r rhai sy'n darparu cymorth wedi cael hyfforddiant sylfaenol ar anghenion iechyd pobl ag anableddau dysgu. |
| **1C** | Ychydig iawn o gyfyngiadau ar allu'r rhai sy'n darparu cymorth i adnabod poen / trallod. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan nad oes llawer o anawsterau'n gysylltiedig â chamddehongli arwyddion a symptomau o bryd i'w gilydd sy'n arwydd o boen, trallod neu salwch. Mae'r rhai sy'n darparu cymorth wedi cael hyfforddiant sy'n ymwneud yn benodol ag anghenion iechyd pobl ag anableddau dysgu. |
| **0C** | Dim cyfyngiadau a nodwyd ar allu'r rhai sy'n darparu cymorth i adnabod poen / trallod. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle nad oes anawsterau a nodwyd yn gysylltiedig â chydnabod arwyddion a symptomau sy'n arwydd o boen, trallod neu salwch. Mae'r unigolyn yn gallu hunan-adrodd neu mae proses gadarn ar waith sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i sicrhau ymyriadau effeithiol ac amserol i drin poen, trallod ac afiechyd. |

| **D. Gallu gofalwyr i adnabod ac ymateb i broblemau iechyd sy'n dod i'r amlwg a / neu hyrwyddo llythrennedd iechyd** | | |
|---|---|---|
| Gall pobl ag anableddau dysgu gyflwyno yn annodweddiadol mewn ymateb i newid mewn statws iechyd. Mae'n bosib y bydd newidiadau ymddygiadol neu emosiynol i boen neu drallod. Mae'n bosib nad oes gan bobl y sgiliau gwybyddol neu gyfathrebu i ddisgrifio eu profiadau, deall natur eu cyflwr neu bwysigrwydd cadw at gynlluniau triniaeth. Mae'n bosib y bydd rhywfaint o ddibyniaeth ar ofalwyr i gydnabod newidiadau mewn cyflwyniad a allai, o'u hystyried yn gyfan gwbl, fod yn arwydd o broblem iechyd ac mae'n bosib y bydd gofalwyr yn cael eu cynorthwyo i alluogi pobl i ddeall eu hiechyd drwy fynediad at adnoddau. | | |
| **Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd** | | **Disgrifydd** |
| **4D** | Cyfyngiadau mawr yn ymwneud â gallu'r rhai sy'n darparu cymorth i adnabod problemau iechyd sy'n dod i'r amlwg a / neu hybu llythrennedd iechyd. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd anawsterau mawr yn deillio o anallu pobl sy'n darparu gofal neu gymorth i gyd nabod problemau iechyd sy'n dod i'r amlwg. Nid oes gwybodaeth hygyrch am anghenion neu ymyriadau iechyd yn cael ei defnyddio, ei chreu na'i chyrchu. Mae'n bosib y bydd pryderon diogelu difrifol mewn perthynas â gallu gofalwyr yn y maes hwn. |
| **3D** | Cyfyngiadau sylweddol yn ymwneud â gallu'r rhai sy'n darparu cymorth i adnabod problemau iechyd sy'n dod i'r amlwg a / neu i hyrwyddo llythrennedd iechyd. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd anawsterau sylweddol yn deillio o anallu'r rhai sy'n darparu gofal neu gymorth i gydnabod problemau iechyd sy'n dod i'r amlwg yn llawn.<br><br>Mae'r gallu i ddefnyddio, creu a dod o hyd i wybodaeth hygyrch am anghenion neu ymyriadau iechyd yn gyfyngedig. |
| **2D** | Cyfyngiadau cyfyngedig yn ymwneud â gallu'r rhai sy'n darparu cymorth i adnabod problemau iechyd sy'n dod i'r amlwg a / neu hybu llythrennedd iechyd. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle mae anawsterau cyfyngedig yn deillio o anghysondeb ymysg y rhai sy'n darparu cymorth wrth gydnabod problemau iechyd sy'n dod i'r amlwg. Mae rhywfaint o dystiolaeth o ddarparu gwybodaeth hygyrch am anghenion iechyd neu ymyriadau. |
| **1D** | Ychydig iawn o gyfyngiadau sy'n ymwneud â gallu'r rhai sy'n darparu cymorth i adnabod problemau iechyd sy'n dod i'r amlwg a / neu i hyrwyddo llythrennedd iechyd. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan nad oes llawer o anawsterau'n ymwneud â gallu pobl sy'n darparu gofal neu gymorth i gydnabod problemau iechyd sy'n dod i'r amlwg.<br><br>Mae gwybodaeth hygyrch am anghenion iechyd neu ymyriadau fel arfer yn amlwg. |
| **0D** | Dim cyfyngiadau a nodwyd yn ymwneud â gallu'r rhai sy'n darparu cymorth i adnabod problemau iechyd sy'n dod i'r amlwg a / neu i hyrwyddo llythrennedd iechyd. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle nad oes anawsterau wedi eu nodi yn ymwneud â gallu pobl sy'n darparu gofal neu gymorth i gydnabod problemau iechyd sy'n dod i'r amlwg.<br><br>Mae gan unigolion fynediad llawn at addysg a hybu iechyd priodol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn; ac at wybodaeth glir a dealladwy am ofal a thriniaeth iechyd. |

## E. Deall Gwybodaeth am Iechyd a Gwneud Dewisiadau

Mae pobl sydd ag anableddau dysgu yn aml yn ei chael yn anodd deall gwybodaeth am iechyd. Gall hyn effeithio ar eu gallu i wneud dewisiadau gwybodus. Mae'n hanfodol bod pobl yn cael eu grymuso lle bynnag y bo modd i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth sydd wedi ei chynllunio i ddiwallu eu hanghenion.

| **Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd** | | **Disgrifydd** |
|---|---|---|
| **4E** | Cyfyngiadau mawr yn ymwneud â chapasiti a chymorth priodol i gael gafael ar wybodaeth iechyd a'i deall a gwneud dewisiadau. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd anawsterau mawr yn deillio o ddiffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth lwyr unigolyn o wybodaeth iechyd. Nid oes cefnogaeth neu mae'r unigolyn (a'r rhai sy'n ei adnabod orau) yn cael ei eithrio o benderfyniadau sy'n ymwneud â'i iechyd a'i lesiant ei hunan. Mae'n bosib y bydd pryderon diogelu difrifol yn ymwneud â deall gwybodaeth iechyd a gwneud dewisiadau. |
| **3E** | Cyfyngiadau sylweddol yn ymwneud â chapasiti a chymorth priodol i gael gafael ar wybodaeth iechyd a'i deall a gwneud dewisiadau. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd anawsterau sylweddol yn deillio o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gyfyngedig unigolyn o wybodaeth iechyd. Prin yw'r cymorth sydd ar gael i alluogi pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain (ynghyd â'r rhai sy'n eu hadnabod orau) mewn perthynas ag iechyd a llesiant. |
| **2E** | Cyfyngiadau cyfyngedig yn ymwneud â chapasiti a chymorth priodol i gael gafael ar wybodaeth iechyd a'i deall a gwneud dewisiadau. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fo anawsterau cyfyngedig yn deillio o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gyfyngedig unigolyn o wybodaeth iechyd. Mae'n bosib y bydd rhywfaint o gymorth i alluogi hyn, gan arwain at rywfaint o ran yn y broses o wneud penderfyniadau a gweithredoedd amhriodol mewn perthynas ag iechyd a llesiant. |
| **1E** | Ychydig iawn o gyfyngiadau yn ymwneud â chapasiti a chymorth priodol i gael gafael ar wybodaeth iechyd a'i deall a gwneud dewisiadau. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan mai ychydig iawn o anawsterau sy'n deillio o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gyfyngedig unigolyn o wybodaeth iechyd. Fel arfer, ceir cefnogaeth dda i sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei gynnwys wrth wneud dewisiadau am ei iechyd. |
| **0E** | Dim cyfyngiadau wedi eu nodi yn ymwneud â chapasiti a chymorth priodol i gael gafael ar wybodaeth iechyd a'i deall a gwneud dewisiadau. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle nad oes unrhyw anhawster wedi ei nodi sy'n ymwneud â dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth unigolyn o wybodaeth iechyd a lle mae cyfranogiad llawn yn y gwaith o gynllunio ar gyfer iechyd da. |

## 4. Dangosyddion Ymddygiad Personol a Ffordd o Fyw.

| A. Deiet a hydradu | | |
|---|---|---|
| Mae gan bobl ag anableddau dysgu ddeiet gwael yn aml. Mewn rhai achosion, oherwydd diffyg llythrennedd iechyd, mae ganddynt ddealltwriaeth wael o beth yw deiet iach. Mae pobl eraill yn dibynnu ar wybodaeth gofalwyr i sicrhau eu bod yn cael deiet cytbwys a maethlon. Mae rhai pobl mewn perygl o gymhlethdodau iechyd sy'n gysylltiedig â gormod o hylif neu gyfyngu ar faint o hylif sy'n cael ei yfed. Mae'n bosib y bydd gan bobl ofynion deiet penodol oherwydd cyflyrau iechyd eraill, neu sgil effeithiau meddyginiaeth. O ystyried yr achosion uchel o anawsterau llyncu, mae angen i rai pobl gael bwyd a diod mewn modd diogel wedi ei addasu. | | |
| **Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd** | | **Disgrifydd** |
| **4A** | Cyfyngiadau mawr ar fwyta ac yfed yn iach. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fo'r unigolyn yn gwybod am anawsterau llyncu ond nad yw'n cael ei addasu i fod yn gyson. Gall gymryd ychydig neu ddim bwyd neu hylif heb lawer o anogaeth ac nid yw hyn ar gael yn rhwydd. Yn bwyta eitemau peryglus (sydd fel arall yn anfwytadwy). Yn cymryd bwydydd sy'n beryglus i statws iechyd hysbys e.e. bwydydd sy'n cynnwys llawer o siwgr os oes diabetes arnynt neu fwydydd sy'n cael eu gwrth arwyddo â meddyginiaeth heb gymorth i'w haddasu. Neu mae pryderon diogelu difrifol. |
| **3A** | Cyfyngiadau sylweddol ar fwyta ac yfed yn iach. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle nad yw cysondeb bwyd yn gwbl ddiogel. Gall yr unigolyn yfed yn ormodol neu gymryd ychydig iawn o hylifau bob yn ail. Mae faint o fwyd a gymerir yn bryder sylweddol. Mae'n bosib y bydd un neu ragor o elfennau hanfodol yn cael eu hepgor yn llwyr (e.e. ffrwythau, llysiau neu gynnyrch llaeth) NEU mae gormodedd eithafol o fwyd nad yw'n iach (e.e. halen neu fraster dirlawn) NEU fwyd caloriffig cwbl annigonol. Ychydig o gefnogaeth i addasu cymeriant maethol. |
| **2A** | Cyfyngiadau cyfyngedig ar fwyta ac yfed yn iach. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd yr unigolyn yn cymryd cymysgedd o fwydydd, llaeth, cig, llysiau a ffrwythau sy'n seiliedig ar rawn, er ei fod yn wahanol iawn i'r symiau dyddiol arferol a argymhellir – rhywfaint o gefnogaeth i fynd i'r afael â'r materion hyn a chefnogi bwyta'n iach. Os yw cysondeb bwyd yn broblem, mae'n bosibl y bydd anghysondeb o bryd i'w gilydd o ran cefnogaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| **1A** | Ychydig iawn o gyfyngiadau ar fwyta ac yfed yn iach. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd yr unigolyn yn cymryd bwyd a hylif digonol sy'n ddiogel a phriodol o ran ei gysondeb. Mae'n bosib y bydd gormodedd neu gyfyngiadau cymharol mewn rhai meysydd allweddol o ran cymeriant maethol. Gall prydau bwyd fod yn brin o amrywiaeth neu gynnwys llawer iawn o halen. Mae cymorth ar gael i fynd i'r afael â materion hysbys. |
| **0A** | Dim cyfyngiadau ar fwyta ac yfed yn iach. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd yr unigolyn yn cymryd deiet iach a chytbwys sy'n cyd-fynd â'i anghenion ac yn cael ei baratoi mewn ffordd y gellir ei chymryd heb risg. Mae'n cymryd 6-8 gwydraid o ddŵr (neu hylifau eraill) bob dydd ac mae'r gofalwyr yn wybodus ac yn darparu cymorth ynghylch argymhellion iechyd y cyhoedd ar fwyta'n iach. |

**B. Ymarfer corff**

Mae pobl ag anableddau dysgu yn aml yn byw bywyd eisteddog na chyfoedion nad ydynt yn anabl. Mae'n bosib y bydd problemau o ran cymhelliant neu lefelau annigonol o gymorth i ganiatáu i bobl gymryd rhan mewn ymarfer corff. Mae gan rai pobl anableddau corfforol cymhleth iawn sy'n golygu ei bod yn anodd gwneud gweithgareddau traddodiadol fel ymarfer corff. Gall ymarfer corff fod yn 'weithgaredd ffordd o fyw' (mewn geiriau eraill, cerdded i'r siopau neu fynd â'r ci am dro) neu ymarfer corff neu chwaraeon strwythuredig, neu gyfuniad o'r rhain; mae angen i'r ymarfer corff fod yn weithgaredd cymedrol o leiaf, gyda'r ffon fesur ei fod yn peri i'r unigolyn fod ychydig yn fyr ei anadl neu ychydig yn gynnes.

| Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd | | Disgrifydd |
|---|---|---|
| **4B** | Cyfyngiadau mawr yn ymwneud ag ymarfer corff. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan nad yw'r unigolyn yn gwneud llawer o ymarfer corff, os o gwbl, hyd yn oed gyda dwysedd ysgafn. Gall fod yn ansymudol neu'n llonyddu o gwmpas yr amgylchedd byw. Mae'n peri risgiau i gyfanrwydd y croen, y system gardiofasgwlaidd, esgyrn a chymalau. Fel arall, gall ymgymryd â gweithgarwch dwys neu ddwys iawn er gwaethaf cyflyrau meddygol sylfaenol sylweddol, sy'n golygu y dylid osgoi llwyth gwaith cardiofasgwlar gormodol. Dim cymorth priodol ar waith o ran ymarfer corff. Mae'n bosib y bydd pryderon diogelu difrifol mewn perthynas ag ymarfer corff. |
| **3B** | Cyfyngiadau sylweddol yn ymwneud ag ymarfer corff. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan nad yw'r unigolyn yn gwneud fawr ddim ymarfer cymedrol, neu'n gwneud gweithgaredd egnïol am gyfnodau byr yn unig; dim mwy nag unwaith neu ddwywaith yr wythnos. Mae mynediad cyfyngedig at gymorth, ac mae dealltwriaeth o ymarfer corff y rhai sy'n darparu cymorth yn fach iawn. |

| | | |
|---|---|---|
| **2B** | Cyfyngiadau cyfyngedig yn ymwneud ag ymarfer corff. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd yr unigolyn yn cymryd llai na chyfanswm wythnosol o awr a hanner o weithgarwch cymedrol. Mae'n gwneud ymarfer o'r fath am lai na phedwar diwrnod yr wythnos. Mae cymorth ar gael ond nid yw'n cael ei weithredu na'i ddefnyddio'n briodol. |
| **1B** | Ychydig iawn o gyfyngiadau yn ymwneud ag ymarfer corff. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd yr unigolyn yn gwneud gweithgaredd dwyster cymedrol bedwar neu bum diwrnod yr wythnos, neu am lai na 30 munud mewn diwrnod. Rhoddir cefnogaeth ac anogaeth briodol. |
| **0B** | Dim cyfyngiadau'n ymwneud ag ymarfer corff. | Mae'r lefel hon yn gymwys pan fo'r unigolyn yn gwneud rhywfaint o ymarfer corff o natur a maint sy'n briodol i oedran a chyflwr iechyd cyffredinol. Cymysgedd o weithgareddau aerobeg a chryfhau cyhyrau ar bum diwrnod neu fwy yr wythnos. Nid oes angen unrhyw gymorth. |

**C. Pwysau**

Mae pobl ag anableddau dysgu yn dueddol o fod naill ai dros bwysau neu dan bwysau. Mae gordewdra yn arwain at amrywiaeth eang o risgiau ynddo' i hun a gall hefyd gynyddu y natur beryglus o ddod i gysylltiad â phenderfynyddion iechyd eraill (e.e. problemau cardiofasgwlaidd genetig neu feddyginiaethau peryglus). Mae bod dan bwysau neu ddiffyg maeth yn cynyddu'r risg o gymhlethdodau meddygol difrifol gan gynnwys haint rheolaidd a nam ar weithrediad yr arennau.

| **Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd** | | **Disgrifydd** |
|---|---|---|
| **4C** | Cyfyngiadau mawr ar gynnal pwysau priodol. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd BMI yn llai na 15 neu'n fwy na 40.<br><br>Mae mwy na 10% o bwysau wedi cael ei golli heb gynllunio dros 3-6 mis.<br><br>Dim cymorth ar gael i gyflawni neu gynnal pwysau priodol.<br><br>Mae'n bosib y bydd pryderon diogelu difrifol mewn perthynas â phwysau. |
| **3C** | Cyfyngiadau sylweddol ar gadw pwysau priodol. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd BMI rhwng 15-16 NEU 35-40<br><br>Mae 5-10% o bwysau'n cael ei golli heb gynllunio dros 3-6 mis.<br><br>Mynediad cyfyngedig at gymorth i gyflawni neu gynnal pwysau priodol. |

| | | |
|---|---|---|
| **2C** | Cyfyngiadau cyfyngedig ar gynnal pwysau priodol. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd BMI rhwng 16-18.5 NEU 30-35.<br><br>Mae colled heb ei gynllunio o lai na 5% o bwysau dros 3-6 mis.<br><br>Mae cymorth ar gael ond nid yw'n cael ei weithredu na'i ddefnyddio'n briodol i gyrraedd neu gynnal pwysau priodol. |
| **1C** | Ychydig iawn o gyfyngiadau ar gadw pwysau priodol. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd BMI rhwng 25 a 30. Mae'r pwysau'n sefydlog.<br><br>Rhoddir cymorth ac anogaeth briodol i gyrraedd neu i gynnal pwysau priodol. |
| **0C** | Dim cyfyngiadau ar gadw pwysau priodol. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd BMI rhwng 18 a 25.<br><br>Mae'r pwysau'n sefydlog. Nid oes angen unrhyw gymorth i sicrhau na chynnal pwysau priodol. |

## D. Defnyddio Sylweddau

Gall pobl agored i niwed fod yn defnyddio alcohol, ysmygu a chyffuriau di-bresgripsiwn a sylweddau niweidiol eraill mewn ffordd niweidiol. Gall hyn eu gwneud yn arbennig o agored i gamfanteisio a gall arwain at broblemau gyda pherthnasoedd, arian ac ymddygiad troseddol. Mae'n bosib y byddant yn ei chael yn anodd, neu'n amharod i gymryd rhan mewn gweithgareddau i newid eu hymddygiad. Mae'n bosib y bydd rhai pobl wedi datblygu ymddygiad defodol neu wedi mynd i rigol.

Yn ogystal, mae angen cymorth ar bobl yn aml gan eraill, nad ydynt o bosib yn cael digon o wybodaeth am effaith niweidiol alcohol, ysmygu a sylweddau peryglus eraill, neu nad ydynt yn meddu ar y sgiliau i gefnogi a rheoli ymddygiad peryglus.

| Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd | | Disgrifydd |
|---|---|---|
| **4D** | Dibyniaeth ar gyffuriau, alcohol, neu sylweddau niweidiol eraill. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle ceir tystiolaeth o gymhelliad cryf i gymryd y sylwedd a ddymunir, lle mae cyflwr tynnu'n ôl yn gysylltiedig ag ymwrthod. Mae'n bosib y bydd tystiolaeth o oddefgarwch (a achosir gan yr angen am fwy a mwy o'r sylwedd a ddymunir er mwyn cyflawni'r effaith a ddymunir). Mae pleserau amgen yn cael eu hesgeuluso. Dim cefnogaeth na mynediad at wasanaethau ar waith. Mae'n bosib y bydd pryderon diogelu difrifol mewn perthynas defnyddio sylweddau. |
| **3D** | Defnyddio cyffuriau, alcohol, tybaco neu sylweddau niweidiol eraill mewn ffordd niweidiol. | Mae patrwm amlwg o ddefnyddio sylweddau sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at niwed corfforol, seicolegol neu gymdeithasol. Cymorth neu fynediad cyfyngedig at wasanaethau. |

| | | |
|---|---|---|
| **2D** | Defnydd peryglus o gyffuriau, alcohol, tybaco neu sylweddau niweidiol eraill. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd defnydd yn gysylltiedig â risg sylweddol uwch o niwed, er nad oes tystiolaeth o niwed gwirioneddol ar hyn o bryd. Dyma'r lefel isaf sy'n gysylltiedig â defnyddio cyffuriau hamdden. Rhywfaint o gymorth wedi ei ddarparu. |
| **1D** | Ychydig iawn o gamddefnyddio alcohol neu dybaco. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle ceir tystiolaeth o ymddygiad peryglus mewn perthynas â defnyddio alcohol neu dybaco.<br><br>Ystyrir bod yr ymddygiadau a ddangosir yn peri risg gyfyngedig i iechyd a llesiant yr unigolyn gyda'r potensial ar gyfer morbidrwydd. E.e. lle mae'r unigolyn yn gyffredinol yn cadw lefel yr alcohol a yfir i lefel ddiogel, ond weithiau'n yfed gormod o alcohol. Mae cymorth ar gael os oes angen. |
| **0D** | Dim patrwm niweidiol o ddefnyddio sylweddau | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle nad oes sylweddau ar wahân i alcohol yn cael eu defnyddio a lle mae yfed o fewn terfynau diogel a argymhellir gan Iechyd Cyhoeddus. (neu lle nad oes alcohol yn cael ei ddefnyddio). Mae defnydd yn peri risg fach iawn i iechyd a llesiant. E.e. Pan fydd yr unigolyn yn yfed alcohol yn rheolaidd ond bod y swm yn cael ei ystyried yn dderbyniol (Yr wythnos: o leiaf dau ddiwrnod di-alcohol, Dynion: dim mwy na 21 uned a dim mwy na phedair uned y dydd, Merched: dim mwy na 14 uned, a dim mwy na thair uned y dydd). |

## E. Iechyd Rhywiol

Mae llawer o bobl ag anableddau dysgu yn cymryd rhan mewn gweithredoedd a pherthnasoedd rhywiol priodol ac iach. Os ydynt yn gwneud hyn heb gael mynediad at addysg / gwasanaethau iechyd rhyw, gallai hyn roi eu hiechyd mewn perygl. Mae eraill yn agored i niwed ac mewn perygl o gael eu camfanteision, neu mae'n bosib y byddant yn ymddwyn mewn ffyrdd sy'n cael eu hystyried yn rhywiol anarferol neu'n anniogel (os nad anghyfreithlon) oherwydd diffyg modelau rôl priodol.

| **Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd** | | **Disgrifydd** |
|---|---|---|
| **4E** | Ymddygiadau rhywiol risg uchel iawn. Cam-drin rhywiol neu droseddu rhywiol. | Mewn perthynas rywiol gamdriniol / camfanteisio.<br><br>Yn ymddwyn mewn ffordd droseddol yn rhywiol.<br><br>Wedi cael rhyw heb ddulliau diogel gyda phobl sydd mewn perygl mawr o fod â chlefyd a drosglwyddir yn rhywiol.<br><br>Dim modelau rôl cadarnhaol ar gyfer perthnasoedd rhywiol normal, addasol.<br><br>Ni ddarparwyd unrhyw gymorth. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae’n bosib y bydd pryderon diogelu difrifol mewn perthynas ag iechyd rhywiol. |
| **3E** | Ymddygiadau rhywiol anniogel a pheryglus. | Yn cael rhyw yn aml heb ddulliau diogel mewn ffordd sy’n beryglus i iechyd, sy’n achosi problemau difrifol o ran diogelu neu sy’n anghyfreithlon.<br><br>Wedi dod i gysylltiad â modelau rôl rhywiol amhriodol. Wedi cael (ac wedi methu canfod) clefyd cronig a drosglwyddir yn rhywiol.<br><br>Cymorth cyfyngedig wedi ei ddarparu Cymorth neu fynediad cyfyngedig at wasanaethau. |
| **2E** | Ymddygiadau rhywiol amhriodol sy’n gwneud rhywun yn fwy agored i niwed. | Ymwybyddiaeth gyfyngedig o hawliau / normau rhywiol er eu bod yn weithredol yn rhywiol.<br><br>Mynediad cyfyngedig at wasanaethau iechyd rhyw. Dealltwriaeth gyfyngedig o beth yw rhyw diogel.<br><br>Diffyg modelau rôl rhywiol cadarnhaol.<br><br>Mae’n byw mewn amgylchedd lle mae eraill yn ymddwyn mewn ffordd rywiol amhriodol.<br><br>Yn gorfforol weithgar ond nid yw’n defnyddio dulliau atal cenhedlu. Rhywfaint o gymorth wedi ei ddarparu. |
| **1E** | Ymddygiadau rhywiol diogel o natur gyfyngedig | Wedi cael cyngor ar atal cenhedlu er mwyn osgoi beichiogrwydd a’r risg o glefydau a drosglwyddir yn rhywiol. Diddordeb mewn rhyw er ei fod wedi ei ynysu’n rhywiol.<br><br>Darparwyd cefnogaeth briodol. |
| **0E** | Ymddygiadau rhywiol iach. | Mae’n cymryd rhan mewn arferion rhywiol diogel neu nid yw’n cymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol drwy ddewis. Mynediad parod at wasanaethau sgrinio iechyd rhyw. |

## F. Ymddygiad / Arferion Peryglus

Gall cyflwyniadau o ymddygiadau y gellir eu disgrifio fel rhai 'heriol' h.y. rhoi diogelwch a llesiant y defnyddiwr gwasanaeth a/neu eraill mewn perygl neu sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd unigolyn yn cael ei eithrio rhag byw'n arferol yn y gymuned, gynyddu'r risg o iechyd gwael. Mae ymddygiadau o'r fath yn cynnwys ymddygiad ymosodol, hunan-niweidio, ymddygiad dinistriol ac ymddygiad anodd neu aflonyddgar arall (mewn rhai achosion gall y categori olaf hwn gynnwys pobl sydd ag arferion/trefn anhyblyg a sefydlog o'r fath fel eu bod yn atal yr unigolyn rhag ymddwyn mewn ffordd gadarnhaol tuag at iechyd). Yn amlwg, mae hunan-niweidio yn cynnwys y fath risgiau ag y gall gweithredoedd amddiffynnol neu atal pobl eraill.

Mae canlyniadau pob ymddygiad yn cynnwys dod i fwy o gysylltiad â chamdriniaeth, triniaethau amhriodol, allgáu cymdeithasol, amddifadedd ac esgeulustod; gall pob un o'r rhain gael effeithiau negyddol ychwanegol sylweddol. Gall pobl sy'n cyflwyno gyda ymddygiadau o'r fath fod mewn mwy o berygl o ystyried bod ymddygiadau o'r fath yn anochel yn gysylltiedig â'u hanabledd dysgu yn hytrach na'u bod yn arwydd o iechyd gwael. Mae rhai arferion sefydlog yn golygu bod pobl yn gyndyn o wneud newidiadau i'w ffordd o fyw sy'n hybu gwell iechyd.

| Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd | | Disgrifydd |
|---|---|---|
| **4E** | Goblygiadau iechyd sylweddol sy'n gysylltiedig â chyflwyno aflonyddwch ymddygiadol difrifol. | Mae'r unigolyn yn cyflwyno gyda ymddygiadau sy'n amrywio o ran amlder, difrifoldeb neu ddwysedd sy'n golygu bod risg uchel y bydd angen mynd i'r ysbyty yn ddirybudd oherwydd anaf difrifol. Neu mae ymddygiad yr unigolyn yn golygu nad oes ganddynt fynediad at ddarpariaeth iechyd arferol. Neu mae sefyllfa'r unigolyn yn golygu ei fod yn dod i gysylltiad â digwyddiadau treisgar. Mae'r ffactorau sy'n rhagweld y digwyddiad neu, ac yn cynnal ymddygiad, yn anhysbys. |
| **3E** | Mae ymddygiad / arferion yn cael effaith sylweddol ar statws iechyd. | Mae'r unigolyn yn dangos ymddygiad am resymau nad ydynt yn cael eu deall yn iawn, sy'n golygu bod angen cymorth cyntaf arnynt yn gyffredin neu eu bod weithiau'n dioddef salwch / anaf mwy difrifol sy'n gofyn am sylw meddygol. Efallai y bydd cynnydd dramatig achlysurol yn nifrifoldeb / amlder yr ymddygiadau sy'n peri pryder. Mewn ymgais i reoli risgiau, mae'n bosibl y bydd yr unigolyn yn wynebu amgylchedd cyfyngol neu driniaethau peryglus. |
| **2E** | Effaith gyfyngedig ymddygiad peryglus / trefn arferol ar iechyd. | Mae'r unigolyn yn cyflwyno gyda amrywiaeth o ymddygiadau sy'n peri pryder. Aseswyd ffactorau achosol yn rhannol ac fe'u deallir yn rhannol. Gall fod yn anodd trefnu mynediad at ddarpariaeth gofal iechyd arferol neu nid yw ymchwiliadau wedi eu cynnal, fel nad oeddent yn teimlo'n gyfiawn i fod yn cynrychioli lles gorau'r unigolyn. Mae effaith ymddygiad yn gymharol sefydlog ac nid yw eu hamlder / difrifoldeb yn cynyddu nac yn lleihau. |

| | | |
|---|---|---|
| **1E** | Nid yw ymddygiad yn cael fawr o effaith ar statws iechyd. | Mae’r unigolyn yn ymddwyn yn beryglus o bryd i’w gilydd neu mae ganddo rywfaint o anhyblygrwydd, ond mae’r rhain wedi cael eu hasesu a chytunwyd ar becyn o strategaethau rhagweithiol ac adweithiol. Mae’r rhain yn cael eu gweithredu’n gyson ac mae canlyniadau’r strategaethau hyn yn cael eu monitro a’u hadolygu’n rheolaidd. Nid oes unrhyw beth yn amharu ar fynediad yr unigolyn at yr amrywiaeth arferol o ddarpariaeth iechyd lleol. |
| **0E** | Dim ymddygiadau / arferion peryglus. | Nid yw’r unigolyn yn cyflwyno gyda ymddygiadau diwylliannol annormal sy’n rhoi ei hun neu eraill mewn perygl difrifol neu’n golygu bod perygl i’r unigolyn fethu cael mynediad at gyfleusterau cymunedol cyffredin. |

## 5. Diffygion mewn Dangosyddion Ansawdd Gwasanaeth a Mynediad.

**A. Rhwystrau sefydliadol**

Mae amrywiaeth eang o rwystrau sefydliadol o ran cael gafael ar ofal iechyd a gwasanaethau eraill. Mae rhai gwasanaethau'n brin ac mae'n bosib y bydd meini prawf cymhwysedd yn atal mynediad. Nid yw bob amser yn hawdd i bobl gael gafael ar wasanaethau'n gorfforol e.e. Mae'n bosib eu bod mewn lleoliad sy'n bell i ffwrdd a gall trafnidiaeth fod yn broblem. Yn aml, nid yw gwasanaethau'n deall / neu gydnabod yr angen i wneud 'Addasiadau Rhesymol'. Mae staff gofal iechyd cyffredinol yn aml yn brin o wybodaeth, sgiliau a hyder, ac o bryd i'w gilydd mae ganddynt agweddau negyddol mewn perthynas â gofalu am bobl ag anableddau dysgu. Gall hyn arwain at 'gysgodi diagnostig.'

| Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd | | Disgrifydd |
|---|---|---|
| **4A** | Cyfyngiadau mawr o ran ansawdd neu fynediad at wasanaethau sy'n gysylltiedig â rhwystrau sefydliadol sy'n atal mynediad yn llwyr. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd anawsterau mawr yn deillio o ddiffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth lwyr sefydliad o natur anableddau dysgu, mae diffyg cydnabyddiaeth lwyr o gysgod diagnostig ac nid oes tystiolaeth o addasiadau rhesymol. Mae'r gwasanaethau'n cael eu gwrthod neu'n anhygyrch, mae'r driniaeth neu'r ymyriad yn cael ei atal, ei ohirio neu yn amhriodol. Nid oes cefnogaeth i gael mynediad at wasanaethau na hyd yn oed gofrestru gyda nhw. Mae'n bosib y bydd pryderon diogelu difrifol mewn perthynas â rhwystrau sefydliadol rhwng gwasanaethau. |
| **3A** | Cyfyngiadau sylweddol ar ansawdd neu fynediad at wasanaethau sy'n gysylltiedig â rhwystrau sefydliadol. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle ceir anawsterau sylweddol o ganlyniad i ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gyfyngedig sefydliad o natur anableddau dysgu. Ceir cydnabyddiaeth wael o gysgodi diagnostig a thystiolaeth gyfyngedig o addasiadau rhesymol. Mae'r ddarpariaeth gwasanaeth yn annigonol neu'n anodd cael gafael arni. Ychydig iawn o gymorth sydd ar gael i gael gafael ar wasanaethau, neu mae oedi gydag ymyriadau. Nid oes hyfforddiant ar gael. |
| **2A** | Cyfyngiadau cyfyngedig o ran ansawdd neu fynediad at wasanaethau sy'n gysylltiedig â rhwystrau sefydliadol. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle mae rhai anawsterau'n gysylltiedig â rhwystrau sefydliadol. Mae dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y rhai sy'n darparu cymorth ynghylch natur anableddau dysgu, cydnabod cysgodi diagnostig a phwysigrwydd addasiadau rhesymol yn anghyson. Bydd rhywfaint o hyfforddiant neu gymorth ar gael, ond mae'r gwasanaethau'n annigonol neu mae'n bosib y bydd oedi gyda'r driniaeth neu'r ymyriad. Prin yw'r cymorth sydd ar gael i gael gafael ar wasanaethau. |

| | | |
|---|---|---|
| **1A** | Ychydig iawn o gyfyngiadau o ran ansawdd neu fynediad at wasanaethau sy'n gysylltiedig â rhwystrau sefydliadol. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan nad oes llawer o anawsterau'n gysylltiedig â rhwystrau sefydliadol. Mae'r sefydliad yn dangos dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth dda o natur anableddau dysgu, cydnabod cysgodi diagnostig a phwysigrwydd addasiadau rhesymol. Mae hyfforddiant ar gael i staff, er nad yw hyn yn orfodol, ac nid yw rhai o'r staff wedi cael eu hyfforddi, sy'n arwain at rywfaint o annigonolrwydd ac anghysondeb yn y gwasanaethau a ddarperir. Mae rhywfaint o gymorth ar gael i gael gafael ar wasanaethau. |
| **0A** | Dim cyfyngiadau wedi eu nodi ar ansawdd neu fynediad at wasanaethau sy'n gysylltiedig â rhwystrau sefydliadol. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan nad oes anawsterau'n gysylltiedig â rhwystrau sefydliadol. Mae'r sefydliad yn dangos dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth dda o natur anableddau dysgu, cydnabod cysgodi diagnostig a phwysigrwydd addasiadau rhesymol. Mae hyfforddiant gorfodol ar anableddau dysgu ar gael i staff. Mae digon o gymorth ar gael i gael gafael ar wasanaethau. |

**B. Cydsyniad**

Gall pobl ag anableddau dysgu fod â'r galluedd i gydsynio neu beidio, a gall y gallu i wneud hynny amrywio. Weithiau nid yw gweithwyr proffesiynol yn rhoi amser i gael caniatâd gan yr unigolyn sydd ag anabledd dysgu, hyd yn oed os oes ganddynt alluedd, gan ymgynghori â gofalwr yr unigolyn neu aelod o'r teulu yn lle hynny. Gall dealltwriaeth o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol neu ddeddfwriaeth genedlaethol briodol arall fod yn gyfyngedig ac nid yw prosesau lles gorau priodol bob amser yn cael eu dilyn wrth wneud penderfyniadau ar gyfer y rhai sydd ag analluedd. Nid yw hyfforddiant bob amser ar gael nac yn cael ei ddefnyddio.

| Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd | | Disgrifydd |
|---|---|---|
| **4B** | Nid yw'r broses cydsyniad neu les pennaf ar waith neu nid yw'n cael ei gweithredu. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd anawsterau mawr yn deillio o arferion anghyfreithlon wrth beidio ag asesu gallu i gael cydsyniad, neu wrth beidio â dilyn prosesau priodol er lles pennaf neu amddifadu o ryddid (DoLS).<br><br>Nid oes hyfforddiant ar gael.<br><br>Mae'n bosib y bydd pryderon diogelu difrifol mewn perthynas â chydsynio. |
| **3B** | Prosesau cydsynio neu les pennaf ar waith ond yn cael eu hanwybyddu neu eu cymhwyso'n anghywir. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd anawsterau sylweddol yn deillio o arferion anghyfreithlon a / neu amhriodol wrth beidio ag asesu galluedd a chael cydsyniad, neu wrth beidio â dilyn prosesau priodol er lles pennaf neu amddifadu o ryddid (DoLS).<br><br>Dim hyfforddiant ar gael. |

| | | |
|---|---|---|
| **2B** | Prosesau cydsynio a lles gorau ar waith ac yn cael eu cymhwyso ond nid yn gyson. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd anawsterau'n deillio o anghysondeb wrth asesu galluedd a chael cydsyniad, neu wrth ddilyn prosesau priodol er lles pennaf neu amddifadu o ryddid (DoLS).<br><br>Mae hyfforddiant ar gael ond nid yw'n orfodol. |
| **1B** | Prosesau cydsynio a lles gorau ar waith ac yn cael eu cymhwyso'n effeithiol yn gyffredinol. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan nad oes llawer o anawsterau o ganlyniad i anghysondeb wrth asesu gallu a chael cydsyniad, neu wrth ddilyn prosesau priodol er lles pennaf neu amddifadu o ryddid (DoLS).<br><br>Mae hyfforddiant gorfodol ar waith. |
| **0B** | Mae'r prosesau cydsynio a lles pennaf yn gadarn ac yn cael eu cymhwyso'n drwyadl. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan nad oes anawsterau'n gysylltiedig â materion cydsyniad. Mae arferion da ar waith ar gyfer asesu galluedd a chael cydsyniad, ac wrth ddilyn dulliau priodol er lles pennaf neu brosesau amddifadu o ryddid (DoLS).<br><br>Mae hyfforddiant gorfodol ar waith ac yn cael ei fonitro, a chydymffurfir yn llawn ag ef. |

## C. Pontio rhwng gwasanaethau

Dywedir yn aml fod pontio rhwng gwasanaethau yn broblem i rai pobl ag anabledd dysgu; er enghraifft, gall hyn gynnwys trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion neu wasanaethau i bobl hŷn, ond gallai hefyd gynnwys pontio rhwng gwasanaethau ysbyty a gwasanaethau cartref neu gymunedol, neu bontio o un cyfnod addysg i un arall. Mae problemau cyffredin yn cynnwys cynllunio gwael, meini prawf cymhwyso amrywiol ac nad oes modd eu cymharu, diffyg eglurder gan weithwyr proffesiynol a chydlynu gwael rhwng gwasanaethau, ynghyd â lefelau isel o fodlonrwydd ymysg gofalwyr teuluol.

| **Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd** | | **Disgrifydd** |
|---|---|---|
| **4C** | Methiant llwyr yn y pontio rhwng gwasanaethau. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd anawsterau mawr yn deillio o arferion gwael mewn prosesau pontio. Ni fydd cydlynydd wedi ei enwi i alluogi pontio a bydd protocolau polisïau yn gwbl annigonol, os byddant yn bodoli o gwbl. Gallai hyn arwain at beidio â darparu gwasanaeth priodol neu wasanaethau cwbl anniogel ac at oedi difrifol wrth drosglwyddo gwasanaethau'n effeithiol. Mae'n bosib y bydd pryderon diogelu difrifol mewn perthynas â phontio rhwng gwasanaethau. |

| | | |
|---|---|---|
| **3C** | Methiant sylweddol yn y pontio rhwng gwasanaethau. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd anawsterau sylweddol yn deillio o arferion gwael mewn prosesau pontio.<br>Ychydig iawn o gydlynu fydd ar gael i ategu'r broses bontio; mae protocolau polisïau'n annigonol, yn aneffeithiol ac mae angen eu diweddaru. Mae hyn yn arwain at ddarparu gwasanaethau anniogel neu annigonol ac oedi sylweddol wrth drosglwyddo gwasanaethau'n effeithiol. |
| **2C** | Oedi neu darfu ar y pontio rhwng gwasanaethau. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle mae anawsterau cyfyngedig yn deillio o arferion gwael mewn prosesau pontio. Mae'n bosib bod cydlynydd penodol ar gael i ategu'r broses bontio ond mae'n bosib na fydd y rôl yn effeithiol; mae angen diweddaru protocolau polisïau. Gall hyn arwain at ddarparu gwasanaethau anniogel neu annigonol ac oedi wrth drosglwyddo gwasanaethau'n effeithiol. |
| **1C** | Mae pontio rhwng gwasanaethau yn llwyddiannus gyda chymorth ychwanegol. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan nad oes llawer o anawsterau'n deillio o brosesau pontio. Bydd cydlynydd penodol ar gael i ategu'r broses bontio, mae polisïau/protocolau yn gyfredol. Mae'n bosibl y bydd gan wasanaethau lleol rai cyfyngiadau sy'n arwain at oedi o bryd i'w gilydd wrth drosglwyddo gwasanaethau y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn effeithiol. |
| **0C** | Mae'r pontio rhwng gwasanaethau'n llwyddiannus heb fod angen unrhyw gymorth ychwanegol. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle nad oes anawsterau wedi eu nodi sy'n gysylltiedig â phrosesau pontio. Bydd cydlynydd penodol ar gael i ategu'r broses bontio, mae polisïau/protocolau yn gyfredol. Mae gwasanaethau lleol mewn sefyllfa dda i sicrhau llwybrau pontio llyfn ac effeithiol, ac nid oes angen unrhyw gymorth ychwanegol. |

## D. Sgrinio / hybu iechyd

Gall mynediad at hybu iechyd fod yn sylweddol waeth i bobl ag anableddau dysgu mwy difrifol a phobl ag anableddau dysgu nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau anabledd dysgu. Yn benodol, mae pobl yn llai tebygol o gael asesiad ar gyfer nam ar eu golwg neu eu clyw; gofal deintyddol arferol; profion ceg y groth, cynnal hunan-archwiliadau ar y fron neu gael mamograffi.

Weithiau nid yw staff gofal wedi eu hyfforddi'n ddigonol ac nid oes ganddynt lawer o sgiliau i ymgysylltu'n effeithiol â phobl ag anableddau dysgu mewn gweithgareddau hybu iechyd ac nid yw llawer yn gwybod am wybodaeth berthnasol bwysig fel hanes teuluol unigolyn.

| Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd | | Disgrifydd |
|---|---|---|
| **4D** | Cyfyngiadau mawr o ran ansawdd neu fynediad at sgrinio / hybu iechyd. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan nad yw rhaglenni a gweithgareddau sgrinio / hybu iechyd ar gael i ddiwallu anghenion a nodwyd. Gall hyn fod oherwydd diffyg darpariaeth gwasanaeth neu gymorth neu fod mynediad yn cael ei wrthod neu ei atal. Nid oes gan y rhai sy'n darparu cymorth unrhyw hyfforddiant a sgiliau i hybu a chefnogi iechyd da. Mae'n bosib y bydd pryderon diogelu difrifol mewn perthynas â sgrinio iechyd neu hybu iechyd. |
| **3D** | Cyfyngiadau sylweddol o ran ansawdd neu fynediad at sgrinio / hybu iechyd. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd rhai rhaglenni a gweithgareddau sgrinio / hybu iechyd ar gael ond mae'n bosib y bydd mynediad neu gymorth yn cael ei gyfyngu, ei oedi neu ddim ar gael. Mae'n debygol nad oes addasiadau rhesymol ar waith. Ychydig iawn o hyfforddiant neu sgiliau sydd gan y rhai sy'n darparu cymorth i hybu ac ategu iechyd da. Mae'n bosib y bydd meysydd angen a nodwyd nad ydynt yn cael eu diwallu. |
| **2D** | Cyfyngiadau cyfyngedig o ran ansawdd neu fynediad at sgrinio / hybu iechyd. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle mae rhaglenni a gweithgareddau sgrinio / hybu iechyd yn cael eu darparu ond mae cyfyngiadau ar gwmpas y gwasanaeth neu'r cymorth sydd ar gael a graddau neu effeithiolrwydd addasiadau rhesymol. Mae gan y rhai sy'n darparu cymorth hyfforddiant a sgiliau cyfyngedig i hybu ac ategu iechyd da. |
| **1D** | Ychydig iawn o gyfyngiadau o ran ansawdd neu fynediad at sgrinio / hybu iechyd. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd rhaglenni a gweithgareddau sgrinio / hybu iechyd ar gael i ddiwallu anghenion a nodwyd ac yn cael eu defnyddio heb lawer o gyfyngiadau. Mae rhai deunyddiau hygyrch. Mae gan y rhai sy'n darparu cymorth rywfaint o hyfforddiant a sgiliau i hybu ac ategu iechyd da. Mae addasiadau rhesymol yn cael eu trafod a'u rhoi ar waith. |

| | | |
|---|---|---|
| **0D** | Dim cyfyngiadau wedi eu nodi o ran ansawdd neu fynediad at sgrinio / hybu iechyd. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle mae mynediad a chefnogaeth lawn i raglenni a gweithgareddau sgrinio / hybu iechyd. Mae deunyddiau hygyrch, ac addasiadau rhesymol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r rhai sy'n darparu cymorth wedi eu hyfforddi'n ddigonol ac yn meddu ar sgiliau digonol i hybu ac ategu iechyd da. |

## E. Gofal sylfaenol / eilaidd

Gall pobl sydd ag anableddau dysgu gael gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd yn llai aml na'r boblogaeth gyffredinol o ran sgrinio, asesu, triniaethau ac ymyriadau eraill. Dylai archwiliadau iechyd blynyddol gan gynnwys sgrinio iechyd gael eu cynnal gan ofal sylfaenol; a dylai gofal dilynol a thriniaeth gael eu darparu'n briodol i sicrhau bod anghenion iechyd yn cael eu diwallu'n brydlon. Dylai pob gwasanaeth iechyd fod yn sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i alluogi mynediad at yr un canlyniadau iechyd ag y byddid yn ei ddisgwyl ar gyfer pobl nad oes ganddynt anableddau dysgu.

| **Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd** | | **Disgrifydd** |
|---|---|---|
| **4E** | Cyfyngiadau mawr o ran ansawdd a / neu fynediad at ofal sylfaenol a / neu eilaidd. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan nad oes gwasanaeth gofal sylfaenol / eilaidd ar gael i ddiwallu anghenion a nodwyd. Gall hyn fod oherwydd diffyg darpariaeth gwasanaeth yn lleol neu fod mynediad neu gefnogaeth yn cael ei wrthod neu ei atal.<br><br>Mae'n bosib y bydd pryderon diogelu difrifol mewn perthynas â gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol neu eilaidd. |
| **3E** | Cyfyngiadau sylweddol o ran ansawdd a / neu fynediad at ofal sylfaenol a / neu eilaidd. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd rhywfaint o wasanaeth gofal sylfaenol / eilaidd ar gael i ddiwallu anghenion a nodwyd ond mae'n bosib y bydd mynediad neu gymorth yn gyfyngedig, yn cael ei oedi neu ddim ar gael yn lleol. Mae'n debygol nad oes addasiadau rhesymol ar waith.<br><br>Mae'n bosib y bydd meysydd angen a nodwyd nad ydynt yn cael eu diwallu. |
| **2E** | Cyfyngiadau cyfyngedig o ran ansawdd / neu fynediad at ofal sylfaenol / eilaidd. | Mae'r lefel hon yn berthnasol lle mae gwasanaeth gofal sylfaenol / eilaidd cyfyngedig ar gael yn lleol i ddiwallu anghenion a nodwyd ac sy'n cael ei ddarparu ond mae cyfyngiadau ar gwmpas y gwasanaeth neu'r cymorth sydd ar gael a graddau neu effeithiolrwydd addasiadau rhesymol. |

| | | |
|---|---|---|
| **1E** | Ychydig iawn o gyfyngiadau o ran ansawdd / neu fynediad at ofal sylfaenol / eilaidd. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd gwasanaeth gofal sylfaenol / eilaidd llawn o ansawdd uchel ar gael i ddiwallu anghenion a nodwyd, a fydd yn cael ei ddefnyddio gyda chymorth priodol a dim llawer o gyfyngiadau.<br><br>Mae addasiadau rhesymol yn cael eu trafod a'u rhoi ar waith. |
| **0E** | Dim cyfyngiad wedi eu nodi o ran ansawdd a / neu fynediad at ofal sylfaenol a / neu eilaidd. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd gwasanaeth gofal sylfaenol / eilaidd llawn o ansawdd uchel ar gael i ddiwallu anghenion a nodwyd ac yn cael ei ddefnyddio heb gyfyngiadau.<br><br>Mae addasiadau rhesymol ar waith ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. |

**F. Gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau iechyd**

Mae llesiant, iechyd ac ansawdd bywyd yn cael eu llywio gan wasanaethau ar wahân i wasanaethau iechyd gan gynnwys, er enghraifft, gofal cymdeithasol, addysg, cyflogaeth, tai, trafnidiaeth a gwasanaethau hamdden; gall hyn fod yn arbennig o wir ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a allai fod yn defnyddio'r gwasanaethau hyn yn rheolaidd.

Dylai pob gwasanaeth cyhoeddus fod yn sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i alluogi mynediad a chanlyniadau cyfartal fel y ddisgwylid ar gyfer pobl heb anableddau dysgu.

| Lefel Effaith a Datganiad Dangosydd | | Disgrifydd |
|---|---|---|
| **4E** | Cyfyngiadau mawr o ran ansawdd gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau iechyd neu fynediad atynt. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan nad oes gwasanaeth (nad yw'n ymwneud ag iechyd) ar gael i ddiwallu anghenion a nodwyd. Gall hyn fod oherwydd diffyg darpariaeth gwasanaeth yn lleol neu fod mynediad neu gefnogaeth yn cael ei wrthod neu ei atal.<br><br>Mae'n bosib y bydd pryderon diogelu difrifol mewn perthynas â gwasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig ag iechyd. |
| **3E** | Cyfyngiadau sylweddol o ran ansawdd gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau iechyd neu fynediad atynt. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd rhywfaint o wasanaeth (nad yw'n ymwneud ag iechyd) ar gael i ddiwallu anghenion a nodwyd ond mae'n bosib y bydd mynediad neu gymorth yn cael ei gyfyngu, ei oedi neu ddim ar gael yn lleol.<br><br>Mae'n debygol nad oes addasiadau rhesymol ar waith.<br><br>Mae'n bosibl nad yw meysydd angen a nodwyd yn cael eu diwallu. |

| | | |
|---|---|---|
| **2E** | Cyfyngiadau cyfyngedig o ran ansawdd gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau iechyd neu fynediad atynt. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd gwasanaeth cyfyngedig (nad yw'n ymwneud ag iechyd) ar gael yn lleol ac yn cael ei ddarparu i ddiwallu anghenion a nodwyd ond mae cyfyngiadau o ran cwmpas y gwasanaeth neu'r cymorth sydd ar gael a graddau neu effeithiolrwydd addasiadau rhesymol. |
| **1E** | Ychydig iawn o gyfyngiadau o ran ansawdd neu fynediad at wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau iechyd. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd gwasanaeth llawn o ansawdd uchel nad yw'n ymwneud ag iechyd ar gael i ddiwallu anghenion a nodwyd ac yn cael ei ddefnyddio yn ôl yr angen gyda chymorth priodol a chyn lleied â phosibl o gyfyngiadau.<br><br>Mae addasiadau rhesymol yn cael eu trafod a'u rhoi ar waith. |
| **0E** | Dim cyfyngiadau wedi eu nodi o ran ansawdd neu fynediad at wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau iechyd. | Mae'r lefel hon yn berthnasol pan fydd gwasanaeth llawn o ansawdd uchel (nad yw'n ymwneud ag iechyd) ar gael i ddiwallu anghenion a nodwyd ac yn cael ei ddefnyddio yn ôl yr angen heb gyfyngiadau.<br><br>Mae addasiadau rhesymol ar waith ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. |

GWELLIANT CYMRU

IMPROVEMENT CYMRU